

WEDI'I YRRU GAN  
**FFYNIANT  
— BRO —**

POWERED BY  
**LEVELLING  
— UP —**



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council



UK Government Wales  
Llywodraeth y DU Cymru



Tyfu  
Canolbarth Cymru  
Growing  
Mid Wales

# LLANBADARN FAWR

## Arfarniad Ardal Gadwraeth

Mehefin 2025

Paratowyd ar gyfer

**Cyngor Sir Ceredigion**

Arennir y prosiect hwn gan lywodraeth y DU trwy Gronfa FFyniant Gyffredn y DU

The GRIFFITHS HERITAGE CONSULTANCY Ltd

## Tabl Cynnwys

## Arfarniad Ardal Gadwraeth Llanbadarn fawr

1.	Cyflwyniad	1
2.	Cyflwyniad i Ardal Gadwraeth Llanbadarn fawr	4
3.	Deddfwriaeth, Polisi Cynllunio a Chanllawiau	6
4.	Diffiniad o Ddiddordeb Pensaerniol neu Hanesyddol Arbennig	9
5.	Lleoliad a Chyd-destun Ffisegol	13
6.	Datblygiad Hanesyddol	14
7.	Dadansoddiad Gofodol	20
8.	Cymeriad Pensaerniol	25
9.	Asedau Dynodedig ac Adeiladau Lleol Pwysig	30
10.	Cymdeithasau Hanesyddol	33
11.	Hanesion Cudd	35
12.	Bioamrywiaeth	36
13.	Materion—Dadansoddiad CGCB	39

## Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Llanbadarn Fawr

1.	Cyflwyniad	40
2.	Cyfarwyddiadau Erthygl 4	40
3.	Adolygiad Ffin	43
4.	Yr Angen am Ganllawiau Dylunio Manwl neu Wybodaeth Gyhoeddus	43
5.	Cyfleoedd ar gyfer Rhestru Lleol	46
6.	Ystyried Gorfodi	48
7.	Cyfleoedd ar gyfer Adfywio	48
8.	Canllawiau Hysbysebu a Rheoli	49
9.	Adeiladau mewn Perygl	52
10.	Gwelliannau Amgylcheddol	53
11.	Coed, Tirwedd a Mannau Agored	56
12.	Monitro ac Adolygu	57
	Atodiad A: Cynllun Gweithredu wedi'i FlaenoriaethU	59
	Atodiad B: Cyfeiriadau a Llyfryddiaeth	62

## 1. CYFLWYNIAD

### 1.1 Yr Amgylchedd Hanesyddol yng Ngheredigion

- 1.1.1 Mae tirwedd Ceredigion â thystiolaeth gyfoethog o'r gorffennol. Mae'r term 'amgylchedd hanesyddol' yn disgrifio canlyniadau rhyngweithio dynol â'r amgylchedd naturiol dros filoedd lawer o flynyddoedd, gan gynnwys yr adeiladau, henebion, ardaloedd cadwraeth, trefluniau a thirweddau rydym yn eu gwerthfawrogi fel cymuned ac yn dymuno eu cadw. Bwriad y gyfres hon o arfarniadau a chynlluniau rheoli yw cynorthwyo'r Cyngor a'r gymuned leol / y cyhoedd i ddeall gwerth a diddordeb arbennig yr ardaloedd cadwraeth yng Ngheredigion, a'r ffordd orau o'u diogelu a'u gwella.
- 1.1.2 Many Mae llawer o nodweddion hanesyddol yn cael eu diogelu trwy ddeddfwriaeth a'r system gynllunio (gweler isod). Yn ogystal ag asedau dynodedig Ceredigion mae nifer o nodweddion heb eu dynodi gan gynnwys safleoedd archeolegol ac adeiladau hanesyddol. Gall asedau heb eu dynodi fod yn fwy agored i newidiadau anghydnaws neu golled trwy ddatblygu a gwaith arall. Yn ogystal â dadansoddi cyfraniad asedau dynodedig i drefi Ceredigion, gall cydnabod asedau heb eu dynodi, trwy ddulliau megis yr arfarniad hwn, helpu i nodi eu harwyddocâd a'u diogelu ar gyfer y dyfodol. Yng Nghymru, mae dros 200,000 o asedau treftadaeth heb eu dynodi wedi'u cofnodi ar y pedwar Cofnod Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol sydd bellach yn ystyriaeth yn y system gynllunio o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.



*Ffig. 1 Yr olygfa dros Lanbadarn Fawr yn edrych i'r de*

- 1.1.3 Mae 1896 o adeiladau ac adeileddau wedi'u cynnwys yn y 'Rhestr o Adeiladau o Ddiddordeb Pensaernïol a Hanesyddol Arbennig' yng Ngheredigion. Mae llawer mwy o adeileddau a adeiladwyd cyn 1948 wedi'u diogelu gan eu bod o fewn 'cwrtil' adeilad rhestredig. Mae adeilad rhestredig yn un sydd wedi cael ei nodi, gan Cadw, fel un o bwysigrwydd pensaernïol neu hanesyddol cenedlaethol. Oherwydd hynny, byddai angen caniatâd ar gyfer unrhyw waith a fyddai'n effeithio ar gymeriad yr adeiledd neu unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol – a elwir yn Ganiatâd Adeilad Rhestredig. Yn groes i'r gred gyffredin, mae'r rhestriad yn cwmpasu'r adeilad cyfan – y tu mewn a'r tu allan, ac yn cynnwys unrhyw osodiadau neu ffitiadau.
- 1.1.4 Mae gan Geredigion 262 o Henebion Cofrestredig. Cofrestru yw'r ffordd y mae heneb neu safle archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol yn cael ei gydnabod gan y gyfraith. Mae'r term 'heneb gofrestredig' yn eang ei gwmpas ac yn cynnwys nid yn unig cestyll adnabyddus, abatai a safleoedd claddu cyn-hanesyddol, ond hefyd safleoedd megis odynau calch, aneddiadau canoloesol amddifad ac olion y diwydiant haearn, glo a llechi. Mae rhai henebion cofrestredig yn cynnwys adeiladau sy'n sefyll neu adfeilion ac nid oes gan eraill olion gweladwy uwchben y ddaear, ond mae eu harcheoleg gladdedig o bwysigrwydd cenedlaethol. Nod cofrestru yw gwarchod y dystiolaeth archeolegol sydd wedi goroesi o fewn safleoedd a henebion. Mae hyn yn cynnwys ffabrig ffisegol yr heneb, ei lleoliad ac unrhyw arteffactau cysylltiedig a thystiolaeth amgylcheddol. Mae hyn yn golygu os ydych am wneud gwaith a fyddai'n newid heneb gofrestredig yn ffisegol, mae'n debyg y bydd angen i chi wneud cais i Cadw am ganiatâd – a elwir yn Ganiatâd Heneb Gofrestredig.
- 1.1.5 Mae 12 o Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Ngheredigion. Mae cofrestru yn nodi parciau a gerddi sydd o ddiddordeb hanesyddol arbennig i Gymru. Maent yn amrywio o ran dyddiad o'r cyfnod canoloesol i ganol yr ugeinfed ganrif. Mae cofrestru yn ystyriaeth berthnasol yn y broses gynllunio; rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ystyried diddordeb hanesyddol y safle wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd ar gyfer unrhyw newidiadau neu beidio.
- 1.1.6 Mae pedair ardal yng Ngheredigion wedi'u dynodi trwy'r Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru. Y mwyaf o'r rhain yw Tirwedd Hanesyddol Ucheldir Ceredigion sy'n gorchuddio llawer o rannau dwyreiniol a gogleddol y sir. Mae Tirwedd Hanesyddol Dyffryn Teifi Isaf wedi'i lleoli yn y de-orllewin, ac mae'n cael ei rhannu'n rhannol â Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin. Mae Tirweddau Hanesyddol Dyffryn Drefach-Felindre a Thywi wedi'u lleoli yn Sir Gaerfyrddin, ond mae rhan ohonynt hefyd wedi'i lleoli o fewn ffin ddeheuol Ceredigion.

1.1.7 Mae gan Geredigion 13 o ardaloedd cadwraeth dynodedig hefyd, sy'n golygu bod rheolaethau ychwanegol ar gyfer dymchwel (sy'n gofyn am Ganiatâd Ardal Gadwraeth) a gwneud gwaith ar goed yn yr ardaloedd hyn. Yr ardaloedd cadwraeth yw:

- Aberaeron
- Aberystwyth
- Adpar
- Aberteifi
- Llanbedr Pont Steffan
- Llanbadarn Fawr
- Llandysul
- Cenarth
- Llanddewi Brefi
- Llanrhystud
- Llansantffraed
- New Quay
- Tregaron

O'r ardaloedd hyn mae gan Aberteifi, Llanddewi Brefi a Thregaron Gyfarwyddiadau Erthygl 4 yn eu lle. Mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn dileu'r hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer adeilad, safle neu ardal benodol sy'n golygu bod mwy o gyfyngiadau o ran pa waith y gellir ei wneud heb fod angen caniatâd cynllunio. Mae coed hefyd yn cael eu diogelu: rhaid rhoi 6 wythnos o rybudd i'r awdurdod lleol cyn gwneud gwaith ar goed mewn ardal gadwraeth.

## 1.2 Ardaloedd Cadwraeth

1.2.1 Mae'n ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol **gadw neu wella** cymeriad a golwg ardaloedd cadwraeth dynodedig o dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Mae'r Ddeddf hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol nodi a dynodi ardaloedd cadwraeth newydd trwy benderfynu pa rannau o'u hardal sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.



**Ffig. 2 Golygfa gyffredinol o Ardal Gadwraeth Llanbadarn Fawr**

- 1.2.2 Mae mwy na 500 o ardaloedd cadwraeth yng Nghymru ac maent yn cael eu gwerthfawrogi fel lleoedd arbennig gan y rhai sy'n ymweld â nhw ac yn byw neu'n gweithio yno.
- 1.2.3 Mae ardaloedd cadwraeth â thystiolaeth ffisegol gyfoethog o'r gorffennol. Mynegir eu diddordeb arbennig yng nghymeriad yr ardal ac nid mewn adeiladau unigol. Gallai hyn fod yn batrwm yr anheddiad, trefn y gofod a'r lleiniau adeiladu a'r rhwydweithiau o lwybrau yn ogystal â'r arddull a'r math o adeiladau, eu deunyddiau a'u manylion.
- 1.2.4 Mae hyn yn golygu ei bod yn hanfodol rheoli newid yn ofalus mewn ardaloedd cadwraeth er mwyn sicrhau bod eu cymeriad a'u golwg yn cael eu diogelu a'u gwella. Er mwyn cyflawni hyn, mae rheolaethau arbennig o ran dymchwel adeiladau a thorri, topio a thocio coed.

### 1.3 Arfarniadau a Chynlluniau Rheoli


- 1.3.1 Mae adran 71 o Ddeddf 1990 yn nodi y bydd yn ddyletswydd ar yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI), o bryd i'w gilydd, i lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer cadw a gwella unrhyw rannau o'i ardal sy'n ardaloedd cadwraeth. Mae Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol yn datgan mai arfarniadau ardaloedd cadwraeth yw'r sylfaen ar gyfer cynigion o'r fath gan eu bod yn darparu sail ar gyfer cynlluniau rheoli manylach.
- 1.3.2 Arfarniad ardal gadwraeth yw'r sylfaen ar gyfer rheolaeth gadarnhaol. Mae'n rhoi darlun manwl o'r hyn sy'n gwneud ardal yn arbennig a gellir ei ddefnyddio i nodi cyfleoedd a blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Mae'r arfarniad yn cynnig cyd-ddealltwriaeth o gymeriad a phwysigrwydd, ac yn amlygu problemau a photensial, y gellir eu defnyddio fel sylfaen dystiolaeth ar gyfer cynllun rheoli manylach wedi'i ategu gan fframwaith polisi lleol cadarn.
- 1.3.3 Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi comisiynu The Griffiths Heritage Consultancy i baratoi arfarniadau a chynlluniau rheoli, ochr yn ochr ag adolygu ffiniau, ar gyfer yr ardaloedd cadwraeth mewn 6 o drefi'r sir.
- 1.3.4 Mae'r arfarniadau a'r cynlluniau rheoli wedi bod yn destun ymgynghoriad cychwynnol â rhanddeiliaid a'r cyhoedd fel y nodir yn adran 4.5. Os cytunir arnynt, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus pellach, byddant yn cael eu mabwysiadu gan Gyngor Sir Ceredigion fel canllawiau cynllunio atodol (CCA).

## 2. CYFLWYNIAD I ARDAL GADWRAETH LLANBADARN FAWR

### 2.1 Ffin yr Ardal Gadwraeth

- 2.1.1 Dynodwyd Ardal Gadwraeth Llanbadarn Fawr ar 5 Ionawr 1987 gyda'r ffin sy'n bodoli ar hyn o bryd ac a ddangosir dros y dudalen. Nid oes arfarniad na chynllun rheoli ar gyfer yr ardal gadwraeth ar hyn o bryd.

Ffig. 3 Ardal Gadwraeth Llanbadarn Fawr



  
**Cyngor Sir Ceredigion**  
**Ceredigion County Council**  
 Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,  
 Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA  
 Ffôn/Tel. 01545 570881

**Llanbadarn Fawr**

**Allwedd / Key**  
 **Ardal Gadwraeth**

**Graddfa / Scale: 1:3,444**  
**Argraffwyd ar / Printed on: 2023-12-21**  
© Hedraeth / Crown and hewlett.com data 2023, Arrols Ordnance 100024419  
 © Crown copyright and database rights 2023, Ordnance Survey 100024419  
 © Ordnance Survey 2023, Ordnance Survey 100024419  
 © Local Government Information House Limited, Ordnance Survey 2023, Ordnance Survey 100024419  
 © Ordnance Survey 2023, Ordnance Survey 100024419  
 © All Rights Reserved. Welsh Government 2019, 2018, Llanbadarn Fawr, 2019, 2018

**G N** 

**0 100 200 m**

## 2.2 Lleoliad a safle

2.2.1 Anheddiad pentref gwledig bach yw Llanbadarn Fawr yn ei hanfod ar gyrion tref fwy, sef Aberystwyth. Fel yn achos llawer o bentrefi yn y sefyllfa hon, roedd ffawd hanesyddol y ddau anheddiad yn cydblethu a datblygodd yr aneddiadau ar y cyd â'i gilydd. Mae ei lleoliad unigryw yn edrych dros Gwm Rheidol a llethrau gogleddol serth y pentref yn rhoi golygfeydd allan dros y dirwedd gyfagos.

## 2.3 Disgrifiad Cryno

2.3.1 Ffurfiodd gwreiddiau mynachaidd canoloesol Llanbadarn ei datblygiad cychwynnol ac ehangiad dilynol yr anheddiad o amgylch y sgwâr a'r eglwys. Mae ffyniant Fictoraidd yr ardal wedi gadael ei ôl trwy amrywiaeth o arddulliau pensaernïol, gan ehangu'r anheddiad ond gydag ethos graddfa a dyluniad sydd wedi cadw a gwella cymeriad y pentref. Mae'r lluo o fannau agored gwyrdd a lonydd troellog bach gyda digonedd o goed a gwrychoedd, yr amrywiaeth o arddulliau pensaernïol a graddfa isel datblygu i gyd yn cyfrannu at gymeriad y pentref. Dim ond datblygu diweddarach sydd wedi erydu'r cymeriad pentrefol cnewyllo hwn gyda datblygiadau modern, preswyl a diwydiannol yn ehangu ffiniau'r pentref ac yn newid ei gymeriad gwledig.

## 3. DEDDFWRIAETH, POLISI CYNLLUNIO A CHANLLAWIAU

### 3.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

3.1.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar gyrf ff cyhoeddus i *'wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'*.



**Ffig. 4** Dodrefn stryd Llanbadarn Fawr (hysbysfwrdd)

3.1.2 Cydnabyddir yn gyffredinol y gall yr amgylchedd hanesyddol gael effaith gadarnhaol ar bobl a chymunedau a chyfrannu at ansawdd bywyd a llesiant. Os yw'r amgylchedd hanesyddol yn

mynd i barhau i ddarparu ei fuddion cyfoethog i gymunedau mae angen nodi'r hyn sy'n arwyddocaol a rheoli newid mewn modd sensitif a chynaliadwy.

- 3.1.3 Mae rheoli newid mewn modd cadarnhaol ar sail dealltwriaeth lawn o gymeriad ac arwyddocâd yr ardal yn hanfodol i gynnal ansawdd arbennig ardal benodol (neu unrhyw ased treftadaeth). Ategir hyn gan godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r buddion y gallant eu darparu a'r sgiliau sydd eu hangen i wneud hynny.

## 3.2 DEDDF YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL (CYMRU) 2023

- 3.2.1 Daeth Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 ('Deddf 2023') i rym ar 4 Tachwedd 2024 ac mae'n darparu'r fframwaith ar gyfer diogelu a rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru. Diddymodd y ddeddfwriaeth ganlynol yng Nghymru:

- Deddf Adeiladau a Henebion Hanesyddol 1953
- Deddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979
- Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990
- Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

- 3.2.2 Mae Deddf 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol: roi sylw arbennig i ddymunoldeb cadw: yr adeilad rhestredig; gosodiad yr adeilad; ac unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig sydd gan yr adeilad wrth ystyried a ddylid rhoi caniatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n effeithio ar adeilad rhestredig neu ei leoliad.

- 3.2.3 Mae Deddf 2023 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol, wrth arfer swyddogaeth gynllunio mewn perthynas ag adeilad neu dir arall mewn ardal gadwraeth, roi sylw arbennig i ddymunoldeb cadw neu wella cymeriad neu olwg yr ardal honno.

## 3.3 Polisi Cenedlaethol a Chanllawiau

- 3.3.1 Mae *Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12, 2024)* yn gosod y cyd-destun ar gyfer polisi defnydd tir cynaliadwy yng Nghymru ac yn nodi'r angen i hyrwyddo dylunio da.
- 3.3.2 Mae polisi ar yr amgylchedd hanesyddol wedi'i gynnwys ym Mhennod 6 Polisi Cynllunio Cymru, sy'n nodi polisiau cenedlaethol sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol arfer rhagdybiaeth gyffredinol o blaid cadw neu wella cymeriad ardal gadwraeth a/neu ei lleoliad wrth ystyried cynigion datblygu.
- 3.3.3 Mae *Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol* yn rhoi arweiniad ar sut i ystyried yr amgylchedd hanesyddol mewn cynlluniau datblygu a phenderfyniadau cynllunio.

3.3.4 Dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried cyhoeddiad (2011) *Cadw Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy* (Egwyddorion Cadwraeth) er mwyn sicrhau newid sensitif o ansawdd uchel. Mae'r ddogfen yn nodi chwe egwyddor arweiniol ar gyfer cadwraeth yr amgylchedd hanesyddol:

- Rheolir asedau hanesyddol er mwyn cynnal eu gwerthoedd
- Mae deall pwysigrwydd asedau hanesyddol yn hollbwysig
- Mae'r amgylchedd hanesyddol yn adnodd a rennir
- Bydd pawb yn gallu mynd ati i gynnal yr amgylchedd hanesyddol
- Rhaid i benderfyniadau ynghylch newid fod yn rhesymol, yn dryloyw ac yn gyson
- Rhaid cofnodi penderfyniadau a dysgu'r gwersi sy'n deillio ohonynt

3.3.5 Mae Cadw hefyd wedi cynhyrchu cyfres o gyhoeddiadau canllawiau arfer gorau sy'n ategu'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi a chyngor cynllunio cysylltiedig gan gefnogi'r rheolaeth gynaliadwy o amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys: *Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru; Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru; Rheoli Newidiadau i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru; Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru, a Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig*, ymysg eraill.



***Ffig. 5 Ffasadau aml-liwiog ar derasau Fictoraidd yn Llanbadarn Fawr***

3.3.6 Mae cyhoeddiad Cadw *Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru* (2017) yn ategu Polisi Cynllunio Cymru a TAN 24 ac yn nodi'r cyd-destun polisi a'r dyletswyddau i awdurdodau cynllunio lleol ddynodi a rheoli ardaloedd cadwraeth. Mae hefyd yn nodi agweddau allweddol

ar arfer da ar gyfer eu dynodi a'u harfarnu, gan gynnwys cyfranogiad rhanddeiliaid a datblygu polisiau lleol ar gyfer rheoli a gwella mewn ffordd gadarnhaol fel bod eu cymeriad a'u golwg yn cael eu cadw a'u gwella.

### 3.4 Polisi Cynllunio Lleol

- 3.4.1 Mae Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion (CDL1): 2007 – 2022 (Mabwysiadwyd 2013) yn nodi polisiau a chynigion penodol ar gyfer datblygu a defnyddio tir yng Ngheredigion am y cyfnod o 15 mlynedd hyd at 31 Mawrth 2022. Fodd bynnag, mae'r CDL1 newydd (CDL2) wedi'i atal ar hyn o bryd oherwydd materion yn ymwneud â ffosffad ac felly CDL1 yw'r Cynllun Datblygu cyfredol ar gyfer y sir.
- 3.4.2 Yn CDL1, mae Polisi DM07 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau o fewn ardaloedd cadwraeth ddangos y rhoddwyd ystyriaeth i Arfarniadau Ardal Gadwraeth, lle maent ar gael, a chanllawiau cenedlaethol.
- 3.4.3 Mae Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) Cyngor Sir Ceredigion: Yr Amgylchedd Adeiledig a Dylunio yn darparu canllawiau atodol ar gyfer datblygiadau sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol neu sy'n effeithio arno.

## 4. DIFFINIAD O DDIDDORDEB PENSAERNÏOL NEU HANESYDDOL ARBENNIG

### 4.1 Crynodeb o Ddiddordeb Pensaernïol neu Hanesyddol Arbennig

ARWYDDOCAD TYSTIOLAETHOL	ARWYDDOCAD HANESYDDOL	ARWYDDOCAD ESTHETIG	GWERTHOEDD CYMUNEDOL
UCHEL	UCHEL	CANOLIG	CANOLIG

4.1.1 Mae'r tabl hwn, ynghyd â'r esboniadau isod, yn crynhoi cyflwr yr ardal gadwraeth ar hyn o bryd ac yn nodi'r diddordeb arbennig a ddylai gael ei gadw, a hefyd lle gellir gwneud gwelliannau. Maent yn seiliedig ar yr ymchwil a'r asesiad ffisegol a hanesyddol a gynhaliwyd ar gyfer yr arfarniad hwn ac a ddefnyddir ar y cyd â chyhoeddiad Cadw *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy* (2011), sy'n nodi pedwar gwerth treftadaeth ar gyfer nodi arwyddocâd:

- **Gwerth tystiolaethol:** mae gan bob ased hanesyddol stori unigryw i'w hadrodd. Mae'r ffabrig a'r manylion hanesyddol sydd wedi goroesi — boed uwchben neu o dan y ddaear — yn ein helpu i ddeall pryd a sut y cafodd pob ased hanesyddol ei wneud, sut y cafodd ei ddefnyddio a sut y mae wedi newid dros amser. Gall ffynonellau darluniadol a dogfennol wella ein dealltwriaeth hefyd.

- **Gwerth hanesyddol:** gall asedau hanesyddol daflu goleuni ar agweddau penodol ar y gorffennol. Gallant ein helpu i ddeall sut roedd pobl yn byw ac yn gweithio, a'r credoau a'r gwerthoedd roeddent yn eu coleddu. Gallant fod yn gysylltiedig â phobl neu ddigwyddiadau nodedig. Trwy atgofio a chysylltu, gall asedau hanesyddol gysylltu pobl, agweddau ar fywyd a digwyddiadau o'r gorffennol â'r presennol.
- **Gwerth esthetig:** gallwn werthfawrogi asedau hanesyddol am eu nodweddion gweledol, p'un a ydynt yn deillio o ddylunio a chreffftwaith ymwybodol, neu o effaith ffodus newid dros amser. Mae chwaeth yn newid ac mae asedau hanesyddol yn newid hefyd: gall cofnodion cynharach a dadansoddiad gofalus o'r hyn sydd wedi goroesi helpu i werthfawrogi gwerth esthetig.
- **Gwerth cymunedol:** gall asedau hanesyddol gael eu coleddu gan y bobl a'r cymunedau sy'n gysylltiedig â nhw, a gallant chwarae rhan bwysig mewn profiad neu gof cyfunol. Gall asedau hanesyddol fod â gwerth economaidd yn ogystal â gwerth cymdeithasol gyda'r gallu i ddarparu ffynhonnell werthfawr o incwm neu gyflogaeth.

4.1.2 Mae'r termau 'arwyddocâd' a 'gwerth' yn cael eu defnyddio'n gyfnewidiol yn y cyd-destun hwn ac mae'r ddau yn cyfrannu at nodi 'diddordeb arbennig' lle.

## 4.2 Tystoliaethol

- 4.2.1 Mae gan Lanbadarn Fawr botensial archeolegol uchel oherwydd ei statws blaenorol fel canolfan bwysig ar gyfer addoliad Cristnogol ac mae'n debygol y bu ganddi glostir mynachaid canoloesol cynnar mawr.
- 4.2.2 Mae Eglwys Padarn Sant wedi cadw llawer o ddeunyddiau sylweddol o ddechrau a diwedd y cyfnod canoloesol.



*Ffig. 6 Mae Rheilffordd Rheidol yn rhedeg i'r de o'r ardal gadwraeth*

- 4.2.3 Mae arwyddocâd tystiolaethol posibl yn strwythurau rhai eiddo cynharach yn y pentref. Er bod y rhain wedi cael eu newid yn sylweddol, mae posibilrwydd bod nodweddion a deunyddiau wedi goroesi, tystiolaeth o grefftwaith a thechnegau, a chynllun cynnar y lleiniau o fewn y pentref ger yr eglwys.
- 4.2.4 Mae presenoldeb a chyfanrwydd goroesi uchel nifer o adeiladau a briodolir i'r pensaer adfywiad Gothig enwog John Pollard Seddon yn ffynhonnell dystiolaeth ragorol ar gyfer ei waith mewn ardal ddaearyddol fach.
- 4.2.5 Mae gwerth tystiolaethol twf ac ehangiad Fictoraidd y pentref yn amlwg yn ei adeiladau ond mae'r rhain wedi colli eu cyfanrwydd oherwydd newidiadau diweddarach a cholli nodweddion pensaernïol.
- 4.2.6 Ar gyfer anheddiad cymharol fach, yn ôl cyfran, mae llawer iawn o ddeunyddiau ymchwil archifol a hanesyddol ar gael.

### 4.3 Hanesyddol

- 4.3.1 Mae arwyddocâd hanesyddol gwreiddiau canoloesol cynnar yr anheddiad yn fawr iawn fel canolfan Gristnogol gynnar bwysig.
- 4.3.2 Mae nifer sylweddol o ffigurau hanesyddol pwysig yn gysylltiedig â Llanbadarn Fawr, yn enwedig sefydlu'r eglwys Gristnogol gynnar yng Nghymru ac fel canolfan ysgolheictod.
- 4.3.3 Ar gyfer anheddiad cymharol fach, yn ôl cyfran, mae llawer iawn o ddeunyddiau ymchwil archifol a hanesyddol ar gael.
- 4.3.4 Mae ehangiad a thwf Llanbadarn ar ddiwedd y cyfnod Sioraidd a'r cyfnod Fictoraidd yn gysylltiedig â thwf hanesyddol Aberystwyth a'r ardal fel canolfan diwydiant, llongau a thwristiaeth.

### 4.4 Esthetig

- 4.4.1 Mae atyniad y pentref i'w weld yng ngraddfa gyfyngedig ei bensaernïaeth gydag arddull a deunyddiau amrywiol yn arwain at gymeriad pentrefol, yn enwedig ger yr Eglwys, y sgwâr a hanner gogleddol y pentref.
- 4.4.2 Mae gwerth esthetig y pentref yn cael ei gyfoethogi gan werth bioamrywiaeth a hyd a lled y manau agored gwyrdd, coetir, gwrychoedd a dyffrynnoedd coediog. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn yr ardal i'r gorllewin o'r fynwent ger yr Eglwys a'r Ficerdy, yng Nghwmpadarn a'r ardal ganolog â llystyfiant ger y nant a Rock Cottage i'r gorllewin o Riw Briallu.
- 4.4.3 Mae gwerth esthetig pensaernïol yr ardal wedi cael ei leihau gan addasiadau amhriodol.

4.4.4 Mae ffordd brysur yr A44 a'i nodweddion priffordd cysylltiedig yn effeithio'n negyddol ar y cymeriad pentrefol cyffredinol.

#### 4.5 Gwerthoedd Cymunedol

4.5.1 Mae'r ardal gadwraeth yn cynnwys nifer o adeiladau cyhoeddus ac adnoddau cymunedol megis yr eglwys, tafarndai, capeli, ysgol, cofgolofn ac eraill.

4.5.2 Mae'r prif weithgarwch masnachol ac economaidd yn digwydd y tu allan i ffin yr ardal gadwraeth sy'n golygu bod natur ddomestig a graddfa datblygu yn cael ei chadw o fewn craidd y pentref.

4.5.3 Yn ystod y broses o lunio'r arfarniad hwn, anfonwyd arolwg cychwynnol at randdeiliaid yn gofyn iddynt nodi beth oedd yn bwysig, yn eu barn nhw, am yr ardal gadwraeth, ac a oedd unrhyw broblemau. Defnyddiwyd yr ymatebion hyn i ddatblygu'r arfarniad drafft. Roedd yr ymatebion a gafwyd wedi nodi:

- Gwreiddiau Cristnogol cynnar yr anheddiad
- Bod Llanbadarn yn ôl-ddyddio Aberystwyth fel anheddiad
- Y bensaernïaeth hanesyddol, yn enwedig Eglwys Padarn Sant
- Coed, yn enwedig y coed yw yn y fynwent a'r coed egsotig ar safle Plas Bronpadarn
- Naws pentrefol unigryw Llanbadarn Fawr a'r gymuned ger yr eglwys
- Pryderon am ddatblygiadau tai newydd/pellach
- Pryderon am golli cymeriad pentrefol
- Gellid darparu mwy o wybodaeth am yr ardal gadwraeth a hanes y pentref
- Ystyried ymestyn ffin yr ardal gadwraeth i gynnwys safle Campws Prifysgol Llanbadarn Fawr a chae Brynteg
- Dylai unrhyw ddatblygiadau tai newydd gael eu dylunio'n ofalus i gyd-fynd â chymeriad y pentref

4.5.4 Er mwyn casglu sylwadau cyhoeddus ar y drafft cyntaf o'r arfarniad a'r cynllun rheoli, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus galw heibio yn Llanbadarn Fawr ym mis Medi 2023. Roedd yr arfarniad a'r cynllun rheoli drafft hefyd ar gael i'w lawrlwytho trwy ddolen we. Daeth wyth o bobl i'r sesiwn a gafwyd nifer o sylwadau sydd wedi cael eu defnyddio i lywio'r arfarniad hwn.

4.5.5 Mae'r gyfradd ymgysylltu hon, o brofiad, yn eithaf sylweddol ar gyfer ardal fach fel Llanbadarn Fawr. Mae'n amlwg o'r ymatebion ysgrifenedig a llafar fod y gymuned leol yn ymfalchïo yn y pentref, ei bensaernïaeth a'i hanes ac yr hoffent iddo gael ei gadw a'i wella. Gellid gwneud mwy o'i hanes, yn enwedig ei wreiddiau Cristnogol cynnar.



*Ffig. 7 Mae Eglwys Padarn Sant wedi cael ei nodi fel un bwysig i'r gymuned oherwydd ei hanes, ei phensaernïaeth a'i lleoliad*

## 5. LLEOLIAD A CHYD-DESTUN FFISEGOL

### 5.1 Dynodiad

5.1.1 Dynodwyd Ardal Gadwraeth Llanbadarn Fawr ar 5 Ionawr 1987 gyda'r ffin sy'n bodoli ar hyn o bryd. Nid oes arfarniad ar gyfer yr ardal gadwraeth ar hyn o bryd.

### 5.2 Lleoliad, Daareg a Thopograffeg

5.2.1 Mae'r anheddiad wedi'i leoli i'r dwyrain o Aberystwyth ac er ei fod wedi'i nodi ar fapiau ac yn weinyddol fel anheddiad ar wahân, ar y tir, ar hyd yr A44, mae datblygiad cyffiniol rhwng y ddau ac nid oes llawer i'w wahanu'n weledol i ddangos ei fod yn faestref Aberystwyth.

5.2.2 Mae'r anheddiad wedi'i leoli ar ymyl deheuol llethr rhewlifol ychydig i'r gogledd o orlifdir afon Rheidol ac mae'n cynnwys tir sy'n codi'n raddol i ddechrau ac sy'n mynd yn fwy serth tua'r gogledd. Mae'n codi o tua 11m uwchben lefel y môr yn y de i uchafswm o tua 60m uwchben lefel y môr yn y gogledd. Mae hyn yn creu rhai darnau serth o dir ar hyd rhannau gogleddol yr ardal gadwraeth.

- 5.2.3 Mae Rheilffordd Rheidol a'r brif reilffordd i Aberystwyth yn rhedeg i'r de o'r anheddiad a ffin yr ardal gadwraeth tra bod yr A44, un o'r prif ffyrdd i mewn ac allan o Aberystwyth, yn rhedeg trwy'r ardal gadwraeth. Mae nifer o is-ffyrdd, llwybrau a ffyrdd hŷn yn ymledu o ganol yr anheddiad. Mae ffynnon yn rhedeg o'r gogledd i'r de trwy Gwmpadarn a'r ardal gadwraeth (o dan y ddaear mewn manau) ac yn gorffen fel llednant i afon Rheidol.
- 5.2.4 Yn ôl Cymdeithas Ddaearogol Prydain ffurfiwyd y creigwely gwaddodol o amgylch Llanbadarn Fawr rhwng 443.8 a 433.4 miliwn o flynyddoedd yn ôl yn ystod epoc Llanymddyfri yn y cyfnod Silwraidd. Mae'n rhan o grŵp gro Aberystwyth sy'n cynnwys tywodfaen a charreg laid (tywodfaen gydag is graig gleiog siliciclastig). Mae dyddodion arwynebol gwaddodol yn cynnwys llifwaddod (gwaddodion afon) – clai, silt, tywod a graean, a ffurfiwyd rhwng 11.8 mil o flynyddoedd yn ôl a'r presennol, yn ystod y cyfnod Cwaternaid.

### 5.3 Cymeriad Tirwedd

- 5.3.1 Mae adnodd LANDMAP Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn nodi bod yr ardal hon wedi'i lleoli'n ganolog o fewn Ardal Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol 'Bryniau a Dyffrynnoedd Rheidol ac Ystwyth'. Mae datganiad cymeriad tirwedd hanesyddol LANDMAP yn nodi, "ardal adeiledig yn Aberystwyth a Llanbadarn. Mae'n cynnwys hen ganolfannau'r ddau anheddiad hyn, datblygiadau tai modern, sefydliadau megis y brifysgol a Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac ystadau diwydiannol. Mae cyfleusterau twristiaeth/hamdden megis meysydd chwaraeon a chwrs golff wedi'u cynnwys." "Garddwriaeth. Anheddiad Cnewyllo. Anheddiad Arall. Prosesu/Gweithgynhyrchu. Cyfathrebu. Milwrol. Tirwedd Ddyluniedig. Hamdden". Mae'r asesiadau tirwedd hyn yn gyffredinol ac yn cwmpasu ardal lawer ehangach na'r ardal a ystyriwyd yn yr arfarniad hwn.

## 6. DATBLYGIAD HANESYDDOL


### 6.1 Cyflwyniad

- 6.1.1 Mae dau brif gyfnod datblygu yn Llanbadarn Fawr. Mae hanes cofnodedig o sefydlu'r eglwys ganoloesol gynnar, canolfan addoli Cristnogol gynnar, o 988 OC ymlaen. Roedd yn fynachaidd erbyn dechrau'r 11eg ganrif o leiaf, ac mae'r adeilad presennol (o'r 13eg ganrif) wedi cadw dwy groes ganoloesol gynnar a arferai fod yn y fynwent. Ni ddatblygodd y pentref mawr ryw lawer tan y 19eg a'r 20fed ganrif.

### 6.2 Mapiau Hanesyddol

- 6.2.1 Map Ystâd Gogerddan tua 1800 yw'r cynharaf sydd ar gael ar gyfer yr ardal. Mae'n dangos yn glir ychydig o adeiladau cynnar ger yr eglwys a bod llawer o'r cynllun ffordd presennol eisoes

yn ei le. Mae'n debyg bod hyn yn adlewyrchu'r anheddiad canoloesol cynnar ac yn dangos na fu fawr ddim datblygu ers sefydlu'r eglwys a'r priordy tan y cyfnod ôl-ganoloesol hwyrach. Mae'r llun agos o ganol y pentref yn dangos nifer o adeiladau cynnar y mae eu safleoedd yn dal i gael eu defnyddio heddiw.



*Ffig. 8 Nodweddir rhan ogleddol yr ardal gadwraeth gan ffyrdd serth, lonydd gwledig cul yn aml*

6.2.2 Mae map Robert Dawson o 1832 ac argraffiad cyntaf map yr Arolwg Ordnans a gyhoeddwyd yn 1834 yn dangos bod cryn ddatblygiad llinellol wedi digwydd mewn cyfnod byr ar hyd y ffyrdd i mewn ac allan o'r pentref, yn enwedig ger y groesfordd yng nghanol y pentref ac ar hyd ffordd Aberystwyth (yr A44 bellach).



*Ffig. 9 Gall enwau strydoedd roi cliwiau am hanes yr ardal*




*Ffigurau 10 ac 11*

*Map a llun agos o Lanbadarn Fawr tua 1800.*

*Gogorddan 110 – Map o Fwrdeistref Aberystwyth gyda nifer o ffermydd, mesiweisiau a thiroedd ym mhlwyf Llanbadarn Fawr a sir Aberteifi. (Llyfrgell Genedlaethol Cymru)*




*Ffig. 12 Darn o fap Robert Dawson 1832*





Ffig. 13 Argraffiad cyntaf map yr Arolwg Ordnans. Cyhoeddwyd 1834.



Ffig. 14 Ail argraffiad o fap yr Arolwg Ordnans. Cyhoeddwyd 1887

Roedd yr ehangu hwn wedi digwydd yr un pryd â chynnydd yn y boblogaeth, gwell ffyrdd a choetsis mawr, a phoblogrwydd Aberystwyth fel canolfan dwristiaeth.


- 6.2.3 Mae Map Degwm y 1840au (a ddangosir yn adran 6 isod) yn dangos israniad parseli tir yn dai ar wahân gyda gerddi. Stribedi hirsgwar hir rheolaidd ydynt gan amlaf gyda'r ymyl byr yn erbyn y ffordd, fel lleiniau bwrtais. Nid oedd y mwyafrif o'r tai yn eiddo i'w deiliaid ac yn ôl pob tebyg cawsant eu rhentu. Mae caeau siâp afreolaidd yn amgylchynu'r pentref.
- 6.2.4 Mae'r ail argraffiad o fap yr Arolwg Ordnans dyddiedig 1886 yn dangos manylion hyfryd ond ychydig iawn o ran ehangiad pellach yr anheddiad gyda dim ond ychydig mwy o adeiladau ac israniad parseli tir. Fodd bynnag, erbyn hyn mae rhai tai newydd pwysig wedi'u hadeiladu megis Padarn House (1860), Garn-Padarn (fila tua 1875-80), Plas Manaw (y Ficerdy gwreiddiol), Bron-Padarn (tua 1875), ac adeiladau cyhoeddus allweddol gan gynnwys yr Ysgol Sul (1880), ailadeiladu capeli Soar a Saron, ac Ysgol Cwm Padarn (1877). Ar ddiwedd y 19eg ganrif cafodd llawer o'r adeiladau cynharach eu hailadeiladu neu eu hadnewyddu, gan gynnwys Eglwys Padarn Sant ei hun (1867 i 1884) gan John Pollard Seddon. Mae'n bosibl ei fod e hefyd wedi adeiladu rhai o'r tai newydd mwy o faint sy'n cyd-fynd â'i arddull Gothig. Roedd hwn yn amlwg yn gyfnod o newid mawr a ffyniant posibl i'r pentref, i'w briodoli'n rhannol yn sicr i ddyfodiad y rheilffordd a phoblogrwydd cynyddol Aberystwyth gerllaw, er nad oedd stent y pentref wedi newid ryw lawer.
- 6.2.5 Daeth y cyfnod nesaf o newid mawr tua diwedd yr 20fed ganrif gyda hyd a lled y pentref yn ehangu trwy adeiladu'r stad ddiwydiannol, Ysgol Cwmpadarn a'r Parc Gwyddoniaeth, i gyd ar y cyrion, ac uwchraddio Ffordd Aberystwyth i greu cefnffordd yr A44.

### 6.3 Ffurflenni Poblogaeth a Chyfrifiad

- 6.3.1 Ar un adeg plwyf Llanbadarn Fawr oedd y plwyf mwyaf yng Nghymru – yn cwmpasu'r rhan fwyaf o ogledd Sir Aberteifi, er iddo leihau'n raddol o ran maint yn ystod y 19eg ganrif. Mae'r plwyf bellach yn cynnwys y rhan fwyaf o ddwy ardal Issayndre ('o dan y dref') ac Uchayndre ('uwchben y dref') a ffurfiodd gnewyllyn y plwyf hynafol. Mae ffiniau'r plwyfi'n pylu'n raddol wrth i Aberystwyth a'i hardaloedd preswyl lloeren ehangu. Ond tan 1861 roedd Aberystwyth yn rhan o blwyf Llanbadarn Fawr sy'n ei gwneud hi'n anodd defnyddio ffurflenni cyfrifiad cynnar i ddod i unrhyw gasgliadau pendant am y berthynas rhwng poblogaeth a datblygiad yr ardal. Fodd bynnag, mae'r gwaith isod ar newid yn y boblogaeth wedi ystyried hyn ac wedi allosod data ar gyfer Llanbadarn Fawr.
- 6.3.2 Mae newidiadau yn y boblogaeth dros amser yn gymorth i ddeall datblygiad yr ardal oherwydd yr anghenion cysylltiedig am dai a gwasanaethau. Mae rhan fach o ffeithiau diddorol o ffurflenni'r cyfrifiad wedi'u cynnwys isod gan eu bod yn helpu i ddeall statws

cymdeithasol y boblogaeth a'u cysylltiadau â'r ardal leol. Mae'n bosibl mai'r rheswm am y cynnydd mawr yn y boblogaeth tua 1820 yw oherwydd mai dyma'r cyfrifiad cyntaf i'w gynnal ar ôl i'r milwyr ddychwelyd o ryfeloedd Napoleon a thwf mawr yn y boblogaeth yn gyffredinol ar y pryd.

- 6.3.3 Mae canlyniadau cyfrifiad 1841 yn dangos mai llafurwyr amaethyddol a swyddi yn gysylltiedig â'r diwydiant llongau, gan gynnwys llawer o forwyr a seiri llongau a masnachau cysylltiedig megis seiri coed, gwneuthurwyr hwyliau a rhaffau, oedd yn y mwyafrif. Mae hyn yn rhoi syniad o natur wledig cefnwlad Aberystwyth a hefyd pwysigrwydd yr harbwr yn Aberystwyth, a gafodd ei wella yn 1836 er mwyn gallu derbyn llongau masnach mwy o faint. Roedd bron pawb wedi cael eu geni yn yr ardal leol ac roedd maint aelwydydd yn amrywio o unigolion sengl gydag aelwydydd o wyth neu naw o bobl.
- 6.3.4 Lleihaodd pwysigrwydd harbwr Aberystwyth gyda chyflwyniad y rheilffyrdd yn y 1860au, a dengys cyfrifiad 1861 fod llawer llai o bobl yn gweithio yn y diwydiant llongau neu grefftau cysylltiedig. Mae'r nifer helaeth o lowyr yn tystio i dwf y diwydiant mwynloddio plwm lleol, ac mae tipyn o weithwyr amaethyddol o hyd.
- 6.3.5 Yng nghyfrifiad 1911 mae cynnydd yn nifer y ffermwyr annibynnol a gefnogir yn aml gan eu teuluoedd a nifer ddiddorol o weithwyr y diwydiant gwasanaethu, megis garddwyr, coetswyr a gweision domestig.




**Ffig. 15 Newidiadau yn y boblogaeth dros amser ar gyfer Llanbadarn Fawr. (Mae'r gwaith hwn yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd trwy [www.VisionofBritain.org.uk](http://www.VisionofBritain.org.uk) ac mae'n defnyddio deunydd hanesyddol sy'n hawlfraint i Brosiect GIS Hanesyddol Prydain Fawr a Phrifysgol Portsmouth)**

## 7. DADANSODDIAD GOFODOL

### 7.1 Ffurf a Chynllun

- 7.1.1 Roedd cynllun hanesyddol y pentref wedi'i seilio o amgylch croesffordd groesgam y prif ffyrdd sy'n arwain i'r gogledd, y de, y dwyrain a'r gorllewin gyda'r datblygiad gwreiddiol wedi'i ganoli o amgylch yr eglwys.
- 7.1.2 Mae datblygiad ffordd osgoi'r A44 wedi creu hirgrwn o amgylch y tai i'r de o'r eglwys ar y ffordd orllewinol wreiddiol yn arwain i Aberystwyth. Mae ffyrdd yn dal i ymledu i bedwar pwynt cwmpawd ac mae'r A44 yn ymuno â'r groesffordd groesgam wreiddiol gyda phâr anghyfforddus o gylchfannau bach.
- 7.1.3 Mae ystadau diwydiannol a datblygiadau tai newydd wedi tyfu ar gyrion craidd gwreiddiol y pentref ond erys manau o dir agored a manau gwyrdd sy'n diffinio stent y pentref i'r de, gogledd a dwyrain.
- 7.1.4 I'r gorllewin mae datblygiad mewnlenwi ar hyd yr A44 wedi arwain at ddatblygiad di-dor bron yn cysylltu Llanbadarn Fawr ag Aberystwyth.
- 7.1.5 Mae'r llinellau rheilffordd i'r de yn nodweddion cryf sy'n diffinio ymyl deheuol y pentref ac yn ei wahanu oddi wrth afon Rheidol a'r gorlifdir.



**Ffig. 16 Map Degwm o'r 1840au yn dangos y 'graen' a chynllun y lleiniau o fewn y pentref y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn bodoli hyd heddiw**

- 7.1.6 Mae'r graen datblygu o fewn y pentref yn parhau i fod yn seiliedig ar israniad hirsgwar y lleiniau adeiladu yn bennaf a nodir ar Fap Degwm y 1840au. Yn ogystal, ceir ychydig o leiniau mwy a mwy afreolaidd eu siâp, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn perthyn i'r tai mwy a godwyd tua diwedd y 19eg ganrif ac yn ystod yr 20fed ganrif.
- 7.1.7 Sgwâr y pentref, sydd bellach yn cynnwys y gofgolofn a'r Garreg Fawr, yw canolbwynt y pentref o hyd ac mae'r A44 yn ei osgoi.
- 7.1.8 Mae nifer o fannau parcio bach oddi ar y ffordd yng nghanol y pentref gan fod y rhan fwyaf o'r stoc tai wedi cael ei adeiladu cyn bod angen cael dreif a lle parcio.



*Ffig. 17 Golygfeydd pwysig*

## 7.2 Ffiniau

- 7.2.1 Roedd ffin hanesyddol y pentref wedi'i ddiffinio'n dda gan y caeau o amgylch. Mae'r Map Degwm uchod yn dangos pentref cnewyllol o amgylch yr eglwys.
- 7.2.2 Arweiniodd y twf yn y boblogaeth ynghyd â llwyddiant Aberystwyth ar ddiwedd y 19eg ganrif at ehangu'r dref, ac felly mae cyfanrwydd ffin orllewinol y pentref wedi'i effeithio.
- 7.2.3 Mae twf cynyddol dros amser, sydd yn arbennig o amlwg yn y datblygiadau tai modern a diwydiannol yn yr 20fed ganrif, wedi arwain at ehangu'r pentref. Mae hyn yn arbennig o wir i'r dwyrain ac i'r gogledd er bod y ffin i'r gogledd wedi'i ddiffinio'n dda o hyd gan goetir a manau gwyrdd agored.

### 7.3 Golygfeydd a Ffyrdd Dynesu

- 7.3.1 Gan fod topograffeg yr ardal gadwraeth yn codi i fyny yn ddramatig i ran ogleddol y pentref ceir golygfeydd dramatig cyfatebol dros Gwm Rheidol a thu hwnt. Nodir y golygfeydd ar y map isod.
- 7.3.2 O bwysigrwydd arbennig o fewn y golygfeydd i'r de yw Bryngaer Pen Dinas a Chofeb Wellington o'r 19eg ganrif, ochr ddeheuol Cwm Rheidol, a golygfeydd achlysurol o'r môr. Mae golygfeydd o ddiddordeb yn cynnwys rhan ogleddol y fynwent sydd â golygfa bron 180 gradd o'r cwm, golygfeydd wedi'u fframio i lawr Cefnllan i'r de-ddwyrain, a golygfeydd ar draws y caeau chwarae, y gorlifdir a'r ysgol o Ffordd Sulien.
- 7.3.3 Mae golygfeydd o fewn y pentref yn cael eu cwtdogi'n bennaf gan strydoedd troellog a llwybrau sy'n creu naws mwy clos ac ymdeimlad o archwilio o fewn canol y pentref.
- 7.3.4 Yr eithriadau i hyn yw'r prif ffyrdd dynesu i'r pentref ar hyd yr A44 (gan gynnwys Ffordd Quebec a Ffordd Sulien) i'r gorllewin a'r de-orllewin, yr A44 i'r dwyrain, a'r olygfa i'r gogledd o'r rheilffordd i fyny Heol y Bont lle mae'r ffyrdd yn lletach a'r olygfa yn ddi-dor ar ei hyd. Er bod yr eithriadau hyn yn cael eu nodweddu'n gyffredinol gan adeiladau a therfynau hanesyddol ar eu hyd, mae Ffordd Sulien yn iwtilitaraidd yn bennaf a heb unrhyw nodweddion a diddordeb hanesyddol.
- 7.3.5 Yn ogystal, mae golygfeydd pwysig dros Ardal Gadwraeth Llanbadarn Fawr o'r Parc a Gardd Cofrestredig dynodedig i'r gogledd-ddwyrain (Cadw Cyf.: PGW(Dy)47(CER)) Prifysgol Cymru, Aberystwyth: Plas Penglais, Campws Penglais a Champws Llanbadarn; Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Gweler adran 9.2 isod.

### 7.4 Mannau Agored a Gwyrdd

- 7.4.1 Nodweddir safle'r ardal gadwraeth a'r golygfeydd gan fannau gwyrdd a thir amaethyddol. Mae'r rhain yn adlewyrchu lleoliad hanesyddol y pentref ac yn bwysig o ran cadw'r cymeriad pentrefol a diffinio terfynau'r anheddiad.
- 7.4.2 O fewn yr ardal gadwraeth mae nifer o erddi a mannau gwyrdd mwy sy'n cyfrannu at ei chymeriad. Mae'r rhain yn cynnwys mynwent yr eglwys, y coetir i'r gorllewin o'r fynwent, y gerddi a'r coetir o amgylch y Ficerdy a Phlas Manaw, llethrau coediog Cwmpadarn, y gerddi llawn planhigion arddull lled-drofannol a'r llwybr o amgylch Bronpadarn, a'r llwybrau cudd deniadol ger y nant yn yr ardal ganolog uchaf rhwng Rhiw Briallu a Phen y Graig.

7.4.3 Yng nghanol yr ardal gadwraeth mae sgwâr y pentref gyda'r gofgolofn a'r Garreg Fawr gyda man agored arall i'r dwyrain ac i'r de o'r Gogerddan Arms (maes parcio, safle bws a nant â chwlfert rhannol erbyn hyn) sydd yn y cynllun i'w weld yn rhan o'r un sgwâr siâp 'L' yn hanesyddol (gweler Mapiâu Degwm a mapiau AO yr 1880au), ac mae'n bosib mai marchnad fach oedd yma yn y gorffennol. Erbyn hyn mae'r ffordd yn ei rhannu'n ffisegol ac yn weledol. Ar ochr ddeheuol Rhes-y-Bont mae gardd gyhoeddus fach gydag ychydig o feinciau ac arwyneb solet yn bennaf.



*Ffig. 18 Llethrau coediog Cwmpadarn*



*Ffig. 19 Cymeriad amaethyddol ar ddiwedd Lôn Padarn*



*Ffig. 20 Mae gan 1 a 2 Awelon ffurf bythynnod llawer hŷn*



*Ffigurau 21 a 22 Dimensiynau'r simnai ar Tymawr (ar y chwith) a Tan y Fron (isod)*



- 7.4.4 At the west end of Padarn Lane is a small farm, one of the few remnants of the former agricultural character of the historic village.



*Ffig. 23 Un o olygfeydd Alfred Worthington o Eglwys Padarn Sant a'r Llew Du*

## 8. CYMERIAD PENSAERNIOL

### 8.1 Traddodiadau Adeiladu

- 8.1.1 Mae cymeriad cyffredinol yr adeiladau o fewn yr ardal gadwraeth yn Fictoraidd ac ychydig o dystiolaeth weledol sydd o adeiladau neu strwythurau hŷn o fewn yr ardal gadwraeth. Mae gan Eglwys Padarn Sant ffabrig canoloesol ond yn dilyn ei hadfer (1867 i 1884) mae ei chymeriad yn dyddio o'r 19eg ganrif yn bennaf.
- 8.1.2 Mae'n bosibl bod rhai o'r adeiladau cynharach a ddangosir ar fap 1800 Gogerddan 110 wedi goroesi er eu bod wedi'u newid yn sylweddol. Mae'n ansicr a yw unrhyw nodweddion hanesyddol mewnol wedi goroesi ond yr arwyddion allanol yw y gallai'r eiddo hyn ôl-ddyddio eu manylion pensaernïol Fictoraidd (a hwyrach) mwy amlwg gan gynnwys ffurf a graddfa, manylion simnai, parseli tir a lleoliad adeiladau, pellter islaw lefel bresennol y stryd, ac mae'n bosibl y gellir eu paru ag adeiladau cynnar a ddangosir ar fap 1800. Mae'r eiddo hyn yn cynnwys 1 a 2 Awelon a Church Cottage, Heol y Llan, 5 Ffordd Quebec; Tymawr (cornel Rhes-y-Bont, Ffordd Sulien a Heol y Bont), Tan y Fron, Cartref, ac o bosib Ty Clyd ar Ffordd Quebec.
- 8.1.3 Mae'r ddwy dafarn, y Llew Du a The Gogerddan Arms Hotel, wedi'u lleoli'n draddodiadol o amgylch sgwâr y pentref a dangosir adeiladau yn y lleoliadau hyn ar fap 1800. Mae'r Llew Du, ynghyd â'r eglwys, i'w gweld mewn sawl paentiad gan Alfred Worthington (1834 – 1927) fel adeilad isel hir gyda tho gwellt – yr arddull tŷ hir neu fwthyn traddodiadol.

O ystyried bod adeilad presennol y Llew Du fel petai'n dyddio o ddiwedd y 19eg ganrif/ dechrau'r 20fed ganrif yn bensaernïol, mae'n debygol iawn bod yr adeilad gwreiddiol wedi cael ei ddymchwel a'i ddisodli. Mae gan y Gogerddan Arms Hotel nodweddion pensaernïol allanol o'r cyfnod Sioraidd, ond mae'n bosibl ei fod yn gynharach ac wedi'i newid yn sylweddol.

- 8.1.4 Mae ychydig o dai Sioraidd, rhai â nodweddion da, wedi goroesi rhwng y datblygiadau Fictoraidd diweddarach.
- 8.1.5 Er y gellir diffinio'r brif arddull bensaernïol fel Fictoraidd, mae cryn dipyn o amrywiaeth bensaernïol yn y cyfnod hwn, fel y dangosir trwy'r ardal gadwraeth gyfan.
- 8.1.6 Mae llawer o dystiolaeth o arddull Gothig Fictoraidd John Pollard Seddon ac mae adeiladau sy'n gysylltiedig â'r arddull hon yn cael eu nodi yn Adran 5.2.4.
- 8.1.7 Mae terasau Fictoraidd ymyl ffordd traddodiadol yn gyffredin mewn llawer o ardaloedd, megis ar hyd Heol y Bont, ochr ddeheuol Ffordd Quebec, Rhes-y-Bont, ochr orllewinol Pen y Graig a Rhiw Briallu. Ac eto mae cryn amrywiaeth yn eu manylder a'u harddull. Roedd yn draddodiadol i adeiladwr brynu llain o dir ac adeiladu teras byr o eiddo i gyd mewn arddull debyg, tra bod y llain nesaf o derasau yn cael ei adeiladu gan adeiladwr arall mewn arddull wahanol ac o bosibl gyda deunyddiau gwahanol. Mae gwahaniaethau pensaernïol bach yn eu gwneud yn unigryw ac yn creu cymysgedd dymunol o nodweddion pensaernïol, deunyddiau a manylion gan gyfrannu'n fawr at y cymeriad pentrefol. Yn anffodus mae llawer o'r eiddo hyn wedi cael eu newid yn ddiweddarach ac mae manylion traddodiadol wedi cael eu colli, megis trwy gyflwyno ffenestri modern, drysau, rendr allanol, ffenestri dormer, colli simneiau ac ati.
- 8.1.8 Mae adeiladau cyhoeddus a dinesig Fictoraidd ac Edwardaidd ar raddfa fach ac ambell i ddatblygiad annibynnol ym mhlith y terasu hyn. Mae'r rhain yn cynnwys bythynnod, tai sengl a thai pâr megis Frondeg, Glyn Cottage a Minafon, Padarn View, ac adeiladau gan gynnwys y capeli a ailadeiladwyd, Hen Ysgol Cwmpadarn a'r Brodordy.
- 8.1.9 Mae'r rhan fwyaf o derasau wedi'u hadeiladu gyda gwedd flaen yn syth ar y palmant neu'r ffordd tra bod adeiladau annibynnol yn aml ar ochr neu ar ongl i'r ffyrdd gyda gerddi o amgylch i fanteisio ar y golygfeydd. Mae toeau tai teras a thai pâr wedi'u grisio lle maent wedi'u hadeiladu i fyny llethrau. Yn gyffredinol mae maint yr adeiladau'n fach o ran graddfa ac eiddo dau lawr yw'r rhai mwyaf cyffredin ac ychydig o eiddo tri llawr. Nid oes braidd dim datblygiadau mawr o fewn yr ardal gadwraeth gan sicrhau lle amlwg parhaus yr eglwys.
- 8.1.10 Bu datblygu mewnlenni yng nghanol a diwedd yr 20fed ganrif ond yn anffodus ychydig o'r rhain sydd o unrhyw ansawdd pensaernïol arbennig. Mae datblygiadau tai diweddarach hefyd

wedi tyfu o amgylch y pentref, gan gyfrannu at faestrefoli cynyddol Llanbadarn Fawr.

## 8.2 Ffiniau, Deunyddiau, Manylion a Dodrefn Stryd

- 8.2.1 Mae waliau terfyn traddodiadol yn nodweddiadol o'r ardal gadwraeth gan gynnwys o amgylch yr eglwys a thai annibynnol. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain wedi'u gwneud o gerrig a rhai o frics ac weithiau mae waliau terfyn wedi'u disodli gan ddeunyddiau neu ffensys modern anghydawns.
- 8.2.2 Mae ffiniau gwrychoedd hefyd yn gyffredin, gan gyfrannu at y cymeriad pentrefol gwledig.
- 8.2.3 Mae gan rai tai ac adeiladau mwy o faint reiliau haearn traddodiadol ond mae'r rhain yn llai cyffredin.
- 8.2.4 Mae deunyddiau cyffredin ar gyfer adeiladau yn cynnwys cerrig lleol, brics, llechi naturiol a rendr (yn aml wedi'i baentio mewn lliwiau llachar). Yn gyffredinol mae tai Fictoraidd Sioraidd a Gothig wedi'u hadeiladu o gerrig rwbel tra bod terasau Fictoraidd, tai pâr a thai sengl wedi'u hadeiladu o frics Fictoraidd fel arfer – weithiau mewn lliwiau cyferbyniol.
- 8.2.5 Mae manylion pensaernïol gwreiddiol yn cyfrannu'n fawr at gymeriad cyffredinol y pentref. Mae'r rhain yn cynnwys drysau a ffenestri gwreiddiol (lle maent wedi goroesi), manylion brics cyferbyniol o amgylch drysau a ffenestri, siliau ffenestri cerrig, simneiau, nwyddau dŵr glaw haearn bwrw, waliau terfyn a rheiliau.



**Ffig. 24 Rheiliau haearn bwrw gwreiddiol**

- 8.2.6 Oherwydd y palmentydd cul a'r ffyrdd prysur mae llawer o reiliau sydd wedi'u dylunio i wahanu traffig oddi wrth gerddwyr. Mewn rhai achosion mae'r nodweddion diogelwch pwysig hyn wedi'u dylunio'n ofalus a'u hintegreiddio i'w hamgylchedd; mewn mannau eraill mae'r rhain yn ymarferol yn unig ac nid ydynt yn ystyried eu cyd-destun.



*Ffig. 25 Mae manylion brics cyferbyniol o amgylch ffenestri a drysau a simneiau yn ychwanegu nodweddion unigryw at resi o derasau gwahanol*



*Ffig. 26 Mae drysau a ffenestri gwreiddiol yn fanylion pensaernïol pwysig*

- 8.2.7 Oherwydd natur y ffyrdd prysur mae nifer o arwyddion, bolardiau traffig, mesurau gostegu traffig ac annibendod stryd. Nid yw'r rhain wedi'u dylunio'n ofalus ac maent yn amharu ar y cymeriad pentrefol cyffredinol. Mae'r ynys draffig ym mhen gorllewinol Heol y Llan lle mae'n ymuno â'r A44 wedi'i hadeiladu o ddeunyddiau modern o ansawdd gwael, ac nid yw ei chynllun yn adlewyrchu ei chyd-destun.
- 8.2.8 Mae dodrefn stryd yn amrywiol ac yn cynnwys rhai enghreifftiau da ag ôl meddwl gofalus megis ger sgwâr y pentref. Fodd bynnag, mae enghreifftiau eraill, megis planwyr pibellau concrit wedi'u cynnal a'u cadw'n wael sy'n cael effaith negyddol yn hytrach nag effaith gadarnhaol.



*Ffig. 27 Rheiliau diogelwch wedi'u dylunio'n briodol er bod angen gwneud rhywfaint o waith cynnal a chadw*



*Ffig. 28 Rheiliau diogelwch iwtilitaraidd amhriodol*



*Ffigurau 29 a 30 Enghreifftiau o ddodrefn stryd priodol ac amhriodol*

## 9. ASEDAU DYNODEDIG AC ADEILADAU LLEOL PWYSIG

### 9.1 Henebion Cofrestredig ac Adeiladau Rhestredig

9.1.1 Nid oes unrhyw henebion cofrestredig yn yr ardal gadwraeth Llanbadarn.

9.1.2 Mae'r Heneb Gofrestredig Gwersyll Pen Dinas (Cadw Cyf.: CD007), bryngaer o'r Oes Haearn, yn gorwedd ar draws y cwm ac o fewn golygfeydd pwysig allan o'r ardal gadwraeth.

9.1.3 O fewn yr ardal gadwraeth mae 10 Adeilad Rhestredig:


- Eglwys Padarn Sant, Gradd 1 (Cadw Cyf.: 9832)
- Giât y fynwent i'r de-orllewin o Eglwys Padarn Sant, Gradd II (Cadw Cyf.: 27048)
- Porth y fynwent i'r de-ddwyrain o Eglwys Sant Padarn, Gradd II (Cadw Cyf.: 27047)
- Y gofgolofn, Gradd II (Cadw Cyf.: 27049)
- Y Garreg Fawr, Gradd II (Cadw Cyf.: 27050)
- Bronpadarn, Gradd II (Cadw Cyf.: 27055)
- Padarn House gan gynnwys rheiliau blaen, Gradd II (Cadw Cyf.: 22778)
- Glyn Padarn, Gradd II (Cadw Cyf.: 27053)
- Capel Saron yn cynnwys festri, rheiliau blaengwrt a gathiau, Gradd II (Cadw Cyf.: 24022)
- Tŷ Mawr a rheiliau, Gradd II (Cadw Cyf.: 27051)

9.1.4 Ychydig y tu allan i ffin yr ardal gadwraeth i'r gorllewin ar hyd Ffordd Quebec mae carreg filltir Restredig Gradd II (Cadw Cyf.: 27057). Yn anffodus, mae ei lleoliad yn wael ond gellir ei gweld wrth i chi ddod i mewn i'r ardal gadwraeth o Aberystwyth. Mae'n arwydd o bwysigrwydd hanesyddol yr hen ffordd dyrpeg o Aberystwyth sy'n arwain trwy Lanbadarn Fawr.

***Ffig. 31 Y garreg filltir Restredig Gradd II ar ffin yr ardal gadwraeth***



Ffig. 32 Asesau dynodedig o fewn Ardal Gadwraeth Llanbadarn Fawr



**Cyngor Sir Ceredigion**  
**Ceredigion County Council**  
 Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,  
 Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA  
 Ffôn/Tel. 01545 570881

**Llanbadarn Fawr**

**Allwedd / Key**

-  Ardal Gadwraeth
-  Adeiladau Rhestredig (CADW)
-  Parciau a Gerddi Hanesyddol (CADW)

**Graddfa / Scale: 1:3,444**  
**Aggraffwyd ar / Printed on: 2023-12-21**

© Crown copyright and database rights 2023. Ordnance Survey 100024419  
 © Crown copyright and database rights 2023. Ordnance Survey 100024419  
 © Herwyl a Hwylod Jones 2013. Llywodraeth Cymru 2013. Llywodraeth Cymru 2013.  
 © Herwyl a Hwylod Jones 2013. Llywodraeth Cymru 2013. Llywodraeth Cymru 2013.



G N

## 9.2 Parciau a Gerddi Cofrestredig

9.2.1 Mae cornel ogledd-orllewinol yr ardal gadwraeth o fewn Parc a Gardd Cofrestredig Gradd II\*: Prifysgol Cymru, Aberystwyth: Plas Penglais, Campws Penglais a Champws Llanbadarn; Llyfrgell Genedlaethol Cymru (Cadw Cyf.: PGW(Dy)47(CER)). Mae wedi'i gofrestru ar sail ei ddiddordeb hanesyddol eithriadol fel un o'r cynlluniau tirlunio modern pwysicaf yng Nghymru, ac mae'n cynnwys gerddi anffurfiol a hen ardd fotaneg, campysau'r prifysgol wedi'u tirlunio a thiroedd llyfrgell wedi'u tirlunio. Mae Bronpadarn a'r adeiladau yn union i'r gorllewin a'r dwyrain ohoni wedi'u cynnwys yn yr ardal.

## 9.3 Adeiladau o Ddiddordeb Lleol

- 9.3.1 Mae dwy lefel o adeiladau o ddiddordeb – y rhai a allai fodloni'r meini prawf ar gyfer cael eu cynnwys ar restr o adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig lleol (gweler <https://cadw.gov.wales/advice-support/historic-assets/other-historic-assets/historic-assets-special-local-interest>) a'r rhai sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad neu olwg yr ardal gadwraeth. Yn aml, ond nid bob amser, mae dyblygu o fewn y ddau gategori.
- 9.3.2 Gall awdurdodau cynllunio lleol ddewis nodi asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig a chadw rhestr ohonynt. Gelwir hyn yn 'rhestru lleol'. Dylai'r meini prawf ar gyfer dewis asedau gael eu llunio gan yr awdurdod lleol ond gellir eu seilio ar ganllawiau Cadw. Dylai'r dewis hefyd fod yn seiliedig ar gyfranogiad cymunedol. Yna gall awdurdodau cynllunio ddatblygu polisïau i'w diogelu a'u gwella trwy bolisiau Cynllun Lleol a Chanllawiau Cynllunio Atodol.
- 9.3.3 Mae adeiladau sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad a golwg ardal gadwraeth yn aml yn adeiladau traddodiadol sydd â gwerth hanesyddol, pensaernïaeth neu fanylion o safon. Nid yw'n golygu nad ydynt wedi cael eu newid mewn rhyw ffordd neu nad oes lle i'w gwella, dim ond y byddai eu colli yn effeithio'n negyddol ar gymeriad neu olwg cyffredinol yr ardal ddynodedig. Ni ddylid edrych yn negyddol ar adeiladau nad ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr gan fod cyfleoedd yn aml i wella adeilad neu strwythur neu adfer nodweddion. Gall peidio â'u cynnwys olygu bod sawl elfen o adeilad traddodiadol wedi'u colli neu fod ei gyfanrwydd wedi'i effeithio'n ddifrifol trwy newidiadau diweddarach. Ni ddylai peidio â'u cynnwys, ynddo'i hun, fod yn rheswm dros roi caniatâd i ddymchwel neu dros ganiatáu datblygiad, dyluniad, deunyddiau neu addasiadau o ansawdd gwael.
- 9.3.4 Mae rhestr o adeiladau posibl y gellid eu cynnwys ar restr leol wedi ei chynnwys yn Adran 5 o'r Cynllun Rheoli.

## 10 CYMDEITHASAU HANESYDDOL

### 10.1 Pobl

10.1.1 Mae nifer o ffigurau hanesyddol pwysig yn gysylltiedig â'r gymuned Gristnogol gynnar yn Llanbadarn Fawr:

- Ystyrir bod Padarn Sant, Esgob Prydeinig o ddechrau'r 6ed ganrif a sefydlodd yr eglwys, yn un o saith sant sefydlol Llydaw. Cyflawnodd nifer o wyrthiau a phererindodau ac roedd yn gydymaith i Dewi Sant a Teilo Sant. Mae hefyd yn gysylltiedig â'r Brenin Arthur. Mae nifer o eglwysi eraill wedi'u cysegru iddo ledled Cymru.
- Roedd Sulien yn Esgob Tyddewi o'r 11eg ganrif am ddau gyfnod (1073-1078 a 1079/80 – 1085/6) a gymerodd loches yn Llanbadarn rhag y Llychlynwyr. Roedd ef a'i fab hynaf (Rhigyfarch – awdur 'Buchedd Dewi'), wedi helpu i sefydlu Llanbadarn Fawr fel canolfan ddysg ac ysgolheictod Cristnogol cynnar.
- Roedd Thomas Bradwardine yn ficer ar ddechrau'r 14eg ganrif ac aeth ymlaen i fod yn gaplan a chyffeswr i [Edward III](#), Archesgob Caergaint ac yn ysgolhaig diwinyddol enwog a dylanwadol a grybwyllwyd gan Chaucer.
- Roedd William Morgan, cyfieithydd y Beibl i'r Gymraeg, yn ficer yma yn yr 16eg ganrif


10.1.2 Gwnaeth y pensaer John Pollard Seddon gyfraniad mawr at bensaernïaeth y pentref. Mae ei arddull pensaernïaeth adfywiad Gothig i'w weld yn y tai mwy ac yng ngwaith adfer Eglwys Padarn Sant. Mae tri o'i adeiladau yn Adeiladau Rhestredig. Mae cofiant Seddon yn Amgueddfa Brydeinig yn datgan ei fod yn fwyaf adnabyddus fel un o benseiri yr adfywiad Gothig, a bu'n brentis i'r pensaer neo-glasurol T L Donaldson yn 1847, ac ymunodd hefyd â'r Gymdeithas Bensaernïol fel un o'i sefydlwyr a'i benodi'n ysgrifennydd mygedol yn 1850. Cafodd ei ddylanwadu'n fawr gan 'Seven Lamps of Architecture' gan John Ruskin a thrwy gydol ei yrfa hir honnodd mai Gothig oedd yr unig wir gelfyddyd Gristnogol, 'most scientific and beautiful, and most in accord with common sense'. Roedd ei bractis yn llwyddiannus iawn yn y 1860au a dechrau'r 1870au. Roedd ei ddyluniadau seciwlar arwyddocaol yn cynnwys Coleg y Brifysgol, Aberystwyth ond pensaer eglwysig ydoedd yn y bôn ac adeiladodd eglwysi yn Chigwell Row yn Essex, Great Yarmouth (St James's 1869-78), Ullenhall, Swydd Warwick, Ayot St Peter, Swydd Henffordd (tua 1874-5), a Hoarwithy, Swydd Henffordd (1872- 85). Adferodd lawer o eglwysi canoloesol hefyd, dyluniodd nifer o ffitiadau eglwysig, ac roedd yn ddylunydd gwydr lliw a mosaig. Roedd hefyd yn gweithio gerllaw yn Aberystwyth ar yr adeg hon.

10.1.3 Peintiwr a ffotograffydd Fictoraidd oedd Alfred Worthington (1834 – 1927). Mae Ysgol Gelf Prifysgol Aberystwyth yn ei ddisgrifio fel mab i raglaw llyngesol a gafodd wersi arlunio yn

blentyn ond ni chafodd erioed unrhyw hyfforddiant ffurfiol yn oedolyn. Ar ddiwedd y 1850au credir ei fod wedi ennill bywoliaeth fel heliwr yng Nghanada ond roedd yn ôl yn Lloegr erbyn 1862, blwyddyn ei briodas. Oherwydd ei iechyd ei hun a'i deulu, symudodd i Aberystwyth ar gyngor meddyg tua 1870. Yma sefydlodd stiwdio ffotograffig yn Ffordd y Môr lle roedd ei waith yn cynnwys portreadau ffotograffig wedi'u paentio. Roedd yn beintiwr toreithiog hefyd gan gynhyrchu paentiadau olewau niferus o olygfeydd morwrol, bywyd llonydd, adar, anifeiliaid a thirweddau ar gyfer y farchnad leol a thwristiaid. Byddai'n aml yn gwneud copïau niferus o rai golygfeydd. Yn ddiweddarach yn ei fywyd dywedir iddo fod yn alcoholig. Cedwir casgliad mawr o'i waith yn Amgueddfa Ceredigion, Aberystwyth. Peintiodd Worthington yr un olygfa o Eglwys Padarn Sant a'r Llew Du sawl gwaith.

## 10.2 Traddodiadau

10.2.1 Dywedir bod Y Garreg Fawr yn tarddu o'r cyfnod Neolithig yn wreiddiol, olion beddrod siambr o bosibl. Yn ôl deunydd archifol safodd sawl pregethwr enwog (yn cynnwys Vavasor Powell a Dr T. Phillips o Neuaddlwyd) arni i draddodi eu negeseuon; fe'i defnyddiwyd hefyd i wneud anerchiadau cyhoeddus, a safai unwaith ar bedair carreg neu goes. Yn 1808 ysgrifennodd Samuel Meyrick, hanesydd y sir, 'An immense stone still remains in the centre of the village, but this has of late been broken by some wicked boys making a bonfire on it', ac erbyn 1848 cafodd ei osod ar flocc o gerrig. Yn 1871 roedd y Cwrt-lît lleol yn gobeithio y byddai Arglwydd y Faenor yn cymryd camau i sicrhau y byddai 'the ancient druidical stone, commonly known as the Garreg Fawr' yn cael ei hadfer a'i diogelu rhag cael ei difrodi yn y dyfodol. Erbyn hyn mae plac haearn bwrw arno yn nodi ei bod yn perthyn i'r teulu Powell o Nanteos.



**Ffig. 33** Llanbadarn Fawr wedi'i arolygu gan William Couling (1782-1816), Caerfyrddin, graddfa [1:2,112]. 3 modfedd = 8 cadwyn. 1810, LIGC Nanteos 79

## 11. HANESION CUDD

### 11.1 Eglwys Padarn Sant a'r Anheddiad Mynachaidd Canoloesol Cynnar

11.1.1 Mae'r disgrifiad rhestredig o'r eglwys yn rhoi crynodeb ardderchog o'i hanes 'cudd' ac mae'n werth dyfynnu'n helaeth ohono:

*"The church succeeds one of the most important Celtic foundations in Wales, the monastery of St Padarn, missionary from Brittany in mid C6, and first bishop. The bishopric lasted until c720 and the church was destroyed by Vikings in 987 and 1038. In C11 Llanbadarn was a noted centre of learning under Sulien and his four sons, including Rhygyfarch, author of the life of St David, but declined after the first arrival of the Normans in the C12. It was under royal control from mid C13 and presumably then rebuilt. Thomas Bradwardine vicar in early C14 became Archbishop of Canterbury. Given to Vale Royal Abbey, Cheshire c1360, and under that abbey until 1538. The nave and transepts are massive and plain with simple lancets, but the S door is so exceptional a piece of Decorated Gothic of the C13 as to arouse suggestions that it was moved from another church such as Strata Florida, but of this there is no evidence. The chancel was remodelled by Abbot William Stratford of Vale Royal in the later C15 with new red sandstone side windows. The parish of 240 square miles (621.6 square kilometres) was the largest in Wales, and included Aberystwyth until the C19. Dafydd ap Gwilym wrote his famous poem the Girls of Llanbadarn about the church in the mid C14. William Morgan, translator of the Bible into Welsh was vicar in the C16. There were still fine medieval screens in the church in 1810, possibly lost when repairs were done in 1813-16. Then the church was divided into the Capel hir (nave), Capel y dre or Capel Aberystwyth (N transept) and Capel Clarach (S transept). In poor condition in the mid C19, the nave walls leaning outward and decayed roofs, restoration was proposed in 1848 under R.K. Penson, but not actively pursued until the Rev John Pugh became vicar in 1862, when new plans were made by W. Butterfield. Butterfield resigned in 1867 and the restoration was finally carried out 1868-84 by J.P. Seddon."*

### 11.2 Potensial Archeolegol

11.2.1 Ni wyddys stent yr anheddiad canoloesol yn Llanbadarn Fawr ond gwyddys fod yr eglwys yn ganolfan addoli Gristnogol gynnar o 988AD ymlaen. Credir iddo fod yn fynachaidd o ddechrau'r 11eg ganrif ac mae olion dwy groes ganoloesol gynnar bwysig yn dal i'w gweld yn yr eglwys. Roedd clostiroedd crefyddol mawr yn nodweddiadol o safleoedd mynachaidd cynnar, yn ymestyn ymhell y tu hwnt i safle'r fynwent bresennol. Mae'n bosibl felly bod olion y safle mynachaidd cynnar yn goroesi y tu allan i ardal bresennol y fynwent.

- 11.2.2 Yn ôl y Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol, dim ond dau ymchwiliad archeolegol sydd wedi cael eu cynnal o fewn ffin yr ardal gadwraeth. Cynhaliwyd y ddau ymchwiliad yn Llanbadarn Body Repair Centre i'r gogledd-ddwyrain o Res-y-Bont ac o fewn yr hyn y tybir iddo fod yn ardal y clostir mynachaid canoloesol cynnar. Ni chafwyd unrhyw gasgliadau pendant o'r naill ymchwiliad na'r llall oherwydd eu natur gyfyngedig ac ni ddarganfuwyd unrhyw ddyddodion oedd yn gynharach na'r 19eg ganrif. Mae'r adroddiadau'n nodi y credir bod gan yr ardal hon botensial archeolegol pwysig.
- 11.2.3 Mae'r Cofnod Henebion Cenedlaethol yn cofnodi safle'r hen ficerdy o'r 18fed ganrif i'r gogledd-ddwyrain o Eglwys Padarn Sant y tu mewn i ardal orllewinol gardd Gwyneryl yn fras. Fe'i nodir fel Hen Blas – tŷ tri llawr sylweddol o'r 18fed ganrif sydd bellach wedi'i ddymchwel.

## 12. BIOAMRYWIAETH


### 12.1 Seilwaith Gwyrdd

- 12.1.1 Mae'r ardal gadwraeth yn cynnwys lonydd deiliog gwyrdd, coetir a dyffrynnoedd coediog, gerddi preifat a mannau gwyrdd agored. Mae llawer o wrychoedd, nant fach mewn cwm â llystyfiant da a llawer o goed da. Credir bod ei photensial bioamrywiaeth yn uchel.
- 12.1.2 Mae rhywfaint o dystiolaeth o rywogaethau anffodrol ymledol yn enwedig ger y dyfrffyrdd gan gynnwys canclwm Japan a bambw.

### 12.2 Coed

- 12.2.1 Mae MapDataCymru (data 2018) yn dangos data Cyfoeth Naturiol Cymru ar Orchudd Coed Trefol. Mae'n cynnwys nifer o grwpiau o orchudd coed o fewn a gerllaw'r ardal gadwraeth, ac mae hefyd yn dangos data pwynt ar gyfer coed unigol a allai fod yn bwysig i gymeriad a golwg yr ardal gadwraeth. Yn anffodus, dim ond ardaloedd nad ydynt yn goetiroedd y mae'r map yn eu cynnwys, felly ni ellir bod yn bendant ynghylch ardaloedd coediog pwysig. Er enghraifft, nid yw'n cynnwys yr ardal goediog i'r gorllewin o'r fynwent na Chwmpadarn, a gall y ddau gael eu hystyried yn bwysig i gymeriad a golwg yr ardal gadwraeth. Yn ddiddorol ddigon, o fewn y coetir heb ei reoli i'r gorllewin o'r fynwent yn ogystal â nifer o rywogaethau brodorol ceir hefyd nifer fawr o goed ewcalyptws a phinwydd culddail.
- 12.1.2 Mae gan Lanbadarn Fawr lawer o goed pwysig gan gynnwys ardaloedd o goetir hynafol a pherllannau traddodiadol o fewn ei lleoliad, ac mae pob un o'r rhain yn cyfrannu'n gadarnhaol at ei chymeriad a'i golwg. Mae nifer o'r rhain yn cael eu gwarchod gan Orchmynton Cadw Coed yn ogystal â'r diogelwch a roddir trwy fod o fewn yr ardal gadwraeth.

Ffig. 34 MapDataCymru (data 2018) – yn dangos grwpiau o orchudd coed a choed unigol



**Cyngor Sir Ceredigion**  
**Ceredigion County Council**  
 Neudd Cyngor, Ceredigion, Penmorfa,  
 Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA  
 Ffôn/Tel. 01545 570881

**Llanbadarn Fawr**

**Allwedd / Key**

- Ardal Gadwraeth
- Gorchudd Coed Trefol 2018 (Coed Unigol)
- Gorchudd Coed Trefol 2018 (Grŵp o Goed)

**Graddfa / Scale: 1:3,444**  
**Aigrafwyd ar / Printed on: 2023-12-21**

© Hawlfraed y Goron a hawlau crefftadau 2023 Ardal Ceredigion, 100024419  
 © Crown copyright and database rights, 2023 Ordnance Survey, 100024419  
 © Local Government Information Unit, Limited, copyright and database rights 2023, 100024419  
 © Ordnance Survey, 2023. Ordnance Survey is a registered trademark of Ordnance Survey Limited.  
 © Ordnance Survey, 2023. Ordnance Survey is a registered trademark of Ordnance Survey Limited.  
 © Ordnance Survey, 2023. Ordnance Survey is a registered trademark of Ordnance Survey Limited.

**G N**

0 100 200 m



## 13. MATERION—DADANSODDI CGCB

<b>CRYFDERAU</b>	<b>GWENDIDAU</b>
<p>Pwysigrwydd ei hanes canoloesol</p> <p>Cymysgedd da o fanylion ac arddulliau pensaernïol</p> <p>Craidd da o bensaernïaeth Fictoraidd</p> <p>Graddfa gyson o ddatblygu</p> <p>Bioamrywiaeth / manau gwyrdd</p> <p>Cymeriad pentrefol</p> <p>Yn agos i Aberystwyth</p> <p>Cysylltiadau trafndiaeth da</p> <p>Ddim llawer o adeiladau 'problemus'</p>	<p>Colli cyfanrwydd pensaernïol</p> <p>Cysylltiadau gwael i gerddwyr o'r gogledd / canol i'r de</p> <p>Diffyg canolfan gymunedol weithgar</p> <p>Prif ffordd brysur ac annibendod stryd</p> <p>Priffyrdd / nodweddion diogelwch heb eu hinte-greiddio</p> <p>Sbwriel</p> <p>Dylunia gwael estyniadau bach – erydiad cronol o'r cymeriad</p> <p>Diffyg rheolaeth dros hysbysebion baneri</p> <p>Sgwâr dwyreiniol heb ei wella o amgylch y nant</p> <p>Ffin orllewinol aneglur ag Aberystwyth</p>
<b>CYFLEOEDD</b>	<b>BYGYTHIADAU</b>
<p>Potensial ymchwil hanesyddol uchel iawn</p> <p>Potensial archeolegol uchel</p> <p>Cyfleoedd ar gyfer gwella pensaernïol</p> <p>Cyfleoedd ar gyfer gwella priffyrdd a dodrefn stryd yn weledol</p> <p>Cyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned</p> <p>Cysylltiadau ag Aberystwyth yn darparu cyfleoedd ar gyfer prosiectau ar y cyd</p> <p>Mwy o ddefnydd o neuadd yr eglwys fel canolfan gymunedol</p> <p>Gwella'r nant / cwlfer yn y sgwâr dwyreiniol</p>	<p>'Uwchraddio' y brif ffordd/ffyrdd</p> <p>Datblygu ac estyniadau newydd amhriodol</p> <p>Colli rhagor o fanylion a nodweddion pensaernïol</p> <p>Colli'r lleoliad 'gwyrdd'</p> <p>Colli golygfeydd</p> <p>Cynyddu maestrefoli</p> <p>Mwy o hysbysebion baneri heb eu hawdurdodi</p> <p>Diffyg adnoddau i ddarparu cyngor dylunio / treftadaeth</p>

FFYNIANT  
— BRO —

LEVELLING  
— UP —



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council



UK Government Wales  
Llywodraeth y DU Cymru



Tyfu  
Canolbarth Cymru  
Growing  
Mid Wales

# LLANBADARN FAWR

## Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth

Mehefin 2025

Paratowyd ar gyfer

**Cyngor Sir Ceredigion**

Ariennir y prosiect hwn gan lywodraeth y DU trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU

The GRIFFITHS HERITAGE CONSULTANCY Ltd

## 1. CYFLWYNIAD

### 1.1 Cyflwyniad

1.1.1 Mae'r cynllun rheoli hwn yn rhoi sylw i'r materion a godwyd yn yr arfarniadau ac yn nodi ymatebion priodol sy'n gymesur ag arwyddocâd yr ardal. Mae'r cynllun yn nodi amcanion rheoli realistig, gan ystyried adnoddau a chyfleoedd ariannu a pholisïau ar gyfer gwella.

## 2. CYFARWYDDIADAU ERTHYGL 4

### 2.1 Cyflwyniad i Gyfarwyddiadau Erthygl 4

2.1.1 Mynegir diddordeb arbennig ardaloedd cadwraeth yng nghymeriad a golwg yr ardal ac nid mewn adeiladau unigol. Mae hyn yn golygu ei bod yn hanfodol rheoli newid yn ofalus mewn ardaloedd cadwraeth er mwyn sicrhau bod eu cymeriad a'u golwg yn cael eu diogelu a'u gwella. Er mwyn cyflawni hyn, mae rheolaethau arbennig o ran dymchwel adeiladau a thorri, topio a thocio coed.

2.1.2 Mae rheolaethau cynllunio ychwanegol y gellir eu cymhwyso i ardaloedd cadwraeth er mwyn diogelu'r elfennau hanesyddol a phensaernïol sy'n gwneud yr ardal yn arbennig. Gelwir y rheolaethau arbennig hyn yn Gyfarwyddiadau Erthygl 4. Penderfynir arnynt gan bob awdurdod cynllunio lleol yn dibynnu ar ba elfen arbennig o'r ardal gadwraeth y maent am ei diogelu. Maent yn fwyaf tebygol o effeithio ar berchnogion sydd am wneud newidiadau i du allan eu hadeilad. Gall y rhain gynnwys cladin, newid drysau neu ffenestri, a gosod dysglau lloeren a phaneli solar.

2.1.3 Ni fwriedir i'r rheolaethau hyn atal newid; yn hytrach, maent yn annog datblygiadau sy'n gydnaws â'r ardal neu sy'n gwella ei chymeriad arbennig. Gellid defnyddio Cyfarwyddiadau Erthygl 4 i helpu i reoli newidiadau ar raddfa fach na fyddai'n cael fawr o effaith yn unigol, ond gyda'i gilydd gallent effeithio ar olwg neu gymeriad ardal gadwraeth.

2.1.4 Mae Erthyglau 4(1) a 4(2) o Orchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir 1995 yn galluogi awdurdodau lleol i wneud cyfarwyddiadau sy'n tynnu'n ôl rhai hawliau datblygu a ganiateir, gan gynnwys rhai mathau o adeiladau neu ardaloedd penodol.

2.1.5 Gellir defnyddio Cyfarwyddiadau Erthygl 4(1) i dynnu'n ôl hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o dir ac adeiladau ond rhaid i hyn gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

2.1.6 Mae Cyfarwyddiadau Erthygl 4(2) yn gymwys i adeiladau ac adeileddau domestig, ond dim ond i'r rhannau hynny sy'n wynebu priffyrdd, dyfrffyrdd neu fannau agored. Gall awdurdodau lleol eu cadarnhau unwaith y bydd y cyfarwyddyd wedi'i hysbysebu'n lleol ac mae rhybudd wedi'i

gyflwyno i drigolion. Yn ogystal, gallai cyfarwyddiadau o'r fath fod yn gymwys hefyd i ddymchwel y cyfan neu ran o unrhyw giât, ffens, wal neu ddull arall o amgáu a allai fod yn gysylltiedig ag eiddo domestig neu beidio.

2.1.7 Cyfarwyddiadau Erthygl 4(2) yw'r cyfarwyddyd a ddefnyddir amlaf ar gyfer rheoli o fewn ardaloedd cadwraeth. Fe'u cymhwysir yn aml mewn senario 'ffon ac abwyd', lle mae rheolaethau yn cael eu cymhwyso trwy'r system gynllunio a'r defnydd o Gyfarwyddyd ond mae cymhellion yn cael eu cymhwyso trwy system grantiau sy'n berthnasol i newid neu gynnal a chadw nodweddion traddodiadol.

2.1.8 Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir ac ati) (Diwygio) (Cymru) 2022 yn cynnwys newid i Gyfarwyddiadau Erthygl 4, ond ar y dyddiad ysgrifennu nid yw hyn wedi dod i rym eto. Mae'r newid hwn yn dileu Cyfarwyddiadau Erthygl 4(2) ac yn caniatáu i awdurdodau lleol wneud Cyfarwyddiadau heb droi at Weinidogion Llywodraeth Cymru. Felly, bydd dau fath o Gyfarwyddyd a'r ddau yn cael eu cyflwyno o dan Erthygl 4(1) o'r Gorchymyn:

- **Cyfarwyddyd Uniongyrchol** pan fydd hawliau datblygu a ganiateir yn cael eu tynnu'n ôl ar unwaith ac yna'n cael eu cadarnhau gan yr ACLI yn dilyn ymgynghoriad;
- **Cyfarwyddyd Anuniongyrchol** lle mae hawliau datblygu a ganiateir yn cael eu tynnu'n ôl yn dilyn ymgynghoriad a chadarnhad gan yr ACLI.



*Ffig. 36 Mae simneiau yn elfen bwysig o bensaernïaeth yr ardal gadwraeth*

## 2.2 Llanbadarn Fawr

2.2.1 Nid oes Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar waith yn Llanbadarn Fawr ar hyn o bryd.

2.2.2 Mae'r arfarniad wedi nodi bod o nodweddion pensaernïol traddodiadol wedi cael eu colli dros y tymor hir megis drysau a ffenestri a bod hyn, gyda'i gilydd, wedi erydu cymeriad pensaernïol yr ardal.

2.2.3 Mae'r arfarniad hefyd wedi nodi bod triniaethau terfyn pwysig yn yr ardal gadwraeth a bod y rhain yn dechrau cael eu herydu trwy eu newid mewn modd amhriodol.

2.2.4 Mae simneiau wedi eu nodi fel nodweddion pwysig o fewn yr ardal gadwraeth ond ar hyn o bryd nid oes unrhyw reolaeth dros eu colli neu eu newid.

2.2.5 Ceir sawl enghraifft o ansawdd gwael a dyluniad amhriodol o estyniadau preswyl bach. Byddai datblygiadau amhriodol pellach yn niweidio'n gynyddol cymeriad a golwg yr ardal gadwraeth.

### 2.3 Argymhelliad – **Yn dibynnu ar ba ddeddfwriaeth sydd mewn grym adeg mabwysiadu**

2.3.1 Dylid cymhwyso Cyfarwyddyd Erthygl 4 (1 neu 2) i Ardal Gadwraeth Llanbadarn Fawr. Ni ellir cymhwyso hyn yn ôl-weithredol ac mae ond yn gymwys i dai annedd a drychiadau sy'n wynebu priffordd, man agored neu ddyfrffordd. Dylid cymhwyso Erthygl 4(2) i'r hawliau datblygu a ganiateir canlynol:

- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth A: Ehangu, gwella neu newid arall i dŷ annedd (i gynnwys newidiadau i ffenestri, newidiadau i ddrysau, rendro, neu ail-rendro eiddo)
- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth B: Ychwanegu to neu newid to
- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth C: Newidiadau eraill i doeon
- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth D: Codi neu adeiladu porth
- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth F: Darparu neu amnewid arwyneb caled
- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth G: Newid, codi, rendro neu symud simneiau
- Atodlen 2 Rhan 2, Dosbarth A: Codi, newid, rendro, neu symud waliau, ffensys, neu reiliau terfyn
- Atodlen 2 Rhan 2, Dosbarth C: Paentiad allanol adeiladau
- Atodlen 2 Rhan 11, Dosbarth C: Dymchwel waliau, ffensys neu reiliau terfyn



***Ffig. 37 Mae colli ffenestri a drysau traddodiadol, cladin a rendr sment yn effeithio'n negyddol ar gymeriad a golwg bythynnod traddodiadol***

### **3. ADOLYGIAD FFIN**

#### **3.1 Cyflwyniad**

3.1.1 Lluniwyd llawer o ffiniau ardaloedd cadwraeth cynnar yn gaeth iawn ac nid oeddent bob amser yn cydnabod cyfraniad cyfnodau datblygu diweddarach i gymeriad lle na gwerth patrymau lleiniau hanesyddol, er enghraifft. Mae'n bwysig adolygu ffiniau ardaloedd cadwraeth o bryd i'w gilydd ac ystyried lle gallai fod angen gwneud addasiadau. Mewn rhai achosion mae ffiniau tir wedi newid neu mae datblygiadau modern da wedi digwydd.

#### **3.2 Llanbadarn Fawr**

3.2.1 Mae'r ffin bresennol yn Llanbadarn Fawr yn cwmpasu craidd y pentref hanesyddol a datblygiad hanesyddol ôl-ganoloesol diweddarach. Mae datblygiadau o ganol a diwedd yr 20fed ganrif, megis tai ac ystadau diwydiannol, y tu allan i'r ffin yn gyffredinol ac nid oes ganddynt fawr ddim i'w ychwanegu at gymeriad yr ardal gadwraeth.

#### **3.3 Argymhelliad**

3.3.1 Ystyrir bod y ffin wedi'i diffinio'n dda ac yn cynnwys yr ardaloedd perthnasol o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig. Ni chynigir unrhyw newidiadau i ffin Ardal Gadwraeth Llanbadarn Fawr.

### **4. YR ANGEN AM GANLLAWIAU DYLUNIO MANWL NEU WYBODAETH GYHOEDDUS**

#### **4.1 Cyflwyniad**

4.1.1 Mae awdurdodau cynllunio lleol yn ymwneud â rheoli ardaloedd cadwraeth o ddydd i ddydd trwy eu rôl yn y broses gynllunio. Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol anelu at gadw neu wella cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth ac mae angen iddynt graffu ar geisiadau cynllunio yn agos gyda'r amcanion hyn mewn golwg.

4.1.2 Gall gwybodaeth fanwl am agweddau arbennig ar yr amgylchedd adeiledig hanesyddol helpu perchnogion, meddianwyr, asiantau cynllunio a'r awdurdod cynllunio lleol i benderfynu ar y ffyrdd gorau o reoli newid cadarnhaol a mabwysiadu dull cyson.

4.1.3 Gall gwybodaeth neu ddehongliad cyhoeddus helpu i sicrhau bod pawb yn deall pam bod ardal yn arbennig. Mae pobl sy'n deall pam bod rhywbeth yn arbennig yn fwy tebygol o ofalu amdano a theimlo eu bod am ofalu amdano. Gall hefyd helpu gyda'r cynnig twristiaeth a hybu buddsoddiad mewn ardal leol.

#### **4.2 Llanbadarn Fawr**

4.2.1 Nid oes unrhyw arfarniad a chynllun rheoli ar gyfer Llanbadarn Fawr ar hyn o bryd i lywio

penderfyniadau rheoli datblygu ac asiantau neu berchnogion sydd am wneud cais am ganiatâd cynllunio.

4.2.2 Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gyngor manwl penodol ynghylch rheoli nodweddion pensaernïol o ddiddordeb arbennig a pha gamau a allai helpu i gadw neu wella cymeriad neu olwg yr ardal gadwraeth.

4.2.3 Mae'r Garreg Fawr yn ased lleol sylweddol ond nid yw rhai pobl leol yn deall ei hanes na'i arwyddocâd. Nid yw unrhyw ymwelwyr yn debygol o allu gwerthfawrogi'r arwyddocâd hwn o'r wybodaeth a ddarparwyd. Gall fod yn agored i gael ei ddifrodi a gallai egluro pam ei bod yn bwysig helpu i atal fandaliaeth neu ddifrod anfwriadol.



*Ffig. 38 Y wybodaeth a ddarperir ar gyfer Y Garreg Fawr*

4.2.4 Mae'r mwyafrif o'r newidiadau yn digwydd i adeiladau hanesyddol ac yn arbennig tai annedd ac eiddo ar rent oherwydd gofynion effeithlonrwydd ynni. Mae angen deall adeiladau traddodiadol yn iawn o ran eu hadeiladwaith, eu harwyddocâd a'u defnydd cyn y gellir gwneud newidiadau addas. Mae llawer o ddewisiadau eraill yn lle'r adweithiau difeddwl arferol i, er enghraifft, disodli ffenestri hanesyddol neu osod inswleiddiad wal allanol. Byddai'r ddau beth hyn yn amharu ar nodweddion arbennig yr adeilad ac o bosibl yn achosi problemau tymor hwy diangen yn ogystal â buddsoddiad ariannol pellach.

### 4.3 Argymhelliad

4.3.1 Dylid mabwysiadu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli fel Canllawiau Cynllunio Atodol a'u defnyddio i lywio'r broses gwneud penderfyniadau.

- 4.3.2 Cynhyrchu taflen Ardal Gadwraeth Llanbadarn Fawr ar gyfer trigolion a busnesau sy'n egluro beth sy'n bwysig am yr ardal, rheolaethau a beth mae'n ei olygu i fyw a gweithio yn yr ardal.
- 4.3.3 Mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill, Grwpiau Swyddogion Cadwraeth De Cymru a'r Canolbarth, Fforwm Treftadaeth Adeiledig Cadw, IHBC, Canolfan Tywi a sefydliadau eraill, datblygu a mabwysiadu taflenni canllaw a gwybodaeth newydd sy'n berthnasol i'r ardal. Gallai enghreifftiau gynnwys canllawiau ar ffenestri hanesyddol, microgynhyrchu a'r canllawiau newydd ar inswleiddio waliau allanol.
- 4.3.4 Darparu dehongliad ychwanegol ynglŷn â'r Garreg Fawr mewn modd nad yw'n ychwanegu at annibendod stryd yn yr ardal hon. Gallai hyn fod yn ychwanegiad at arwyddion presennol trwy gelfyddyd neu farddoniaeth stryd, ar-lein, cod QR, neu ddulliau eraill.
- 4.3.5 Cynhyrchu canllawiau ar gynaliadwyedd ac effeithlonrwydd ynni ar gyfer pob ardal gadwraeth, adeiladau hanesyddol a rhestredig yng Ngheredigion. Gellid cynhyrchu hwn ar y cyd ag awdurdodau eraill neu adnoddau presennol megis Canolfan Tywi, Adeiladu Treftadaeth yng Nghymru neu'r Gynghrair Adeiladau Traddodiadol. Dylai'r canllawiau gwmpasu:
- **Cynnal a chadw:** Mae diffygion adeiladu yn effeithio ar gynaliadwyedd adeiladau hanesyddol yn y tymor hir. Mae addysgu ceidwaid adeiladau a chontractwyr yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, diogelu treftadaeth bensaernïol y rhanbarth, a chyflawni nodau cynaliadwyedd. Mae defnyddio deunyddiau a sgiliau traddodiadol priodol mewn modd amserol yn hanfodol bwysig i barhad adeiladau hanesyddol yn y tymor hir.
  - **Adeiladwaith traddodiadol a sut mae hen adeiladau'n gweithio:** Yn gyffredinol diffinnir adeiladau traddodiadol fel y rhai a gafodd eu hadeiladu cyn 1919, gyda waliau solet (yn hytrach na waliau ceudod), gan ddefnyddio deunyddiau naturiol gan gynnwys cerrig, pridd, brics, pren a chalch. Mae'r term 'traddodiadol' yn cwmpasu amrywiaeth enfawr o fathau, arddulliau ac oedrannau adeiladu, o fythynnod cerrig i gestyll ac o dai tref i gapeli. Mae'r deunyddiau a'r technegau a ddefnyddir mewn adeiladu traddodiadol wedi creu'r adeiladau unigol, cyferbyniol ac idiosyncratig sy'n helpu i ddiffinio cymeriad unigryw ein trefi, pentrefi a thirweddau gwledig, a hunaniaeth y cymunedau sy'n byw ynddynt. Mae adeiladau hŷn yn defnyddio technegau adeiladu gwahanol i adeiladau newydd modern. Mae deall hyn a dysgu sut i ddefnyddio'r technegau priodol yn hanfodol i hirhoedledd ein hadeiladau hanesyddol.
  - **Arbed ynni ac ôl-ffitio mewn adeiladau hanesyddol:** Dylai'r canllawiau gynnwys: effeithlonrwydd ynni a pham ei fod yn bwysig – iechyd, newid yn yr hinsawdd ac

allyriadau carbon; Beth yw ôl-osod a pham fod angen agwedd arbennig ar adeiladau hŷn?; Opsiynau ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau traddodiadol – e.e. defnydd, sicrhau dull tŷ cyfan, dewisiadau eraill yn lle newid ffenestri a drysau traddodiadol, pwysigrwydd gwresogi ac awyru, anadlwyedd ac inswleiddio, cynnal a chadw ac atgyweirio etc.

## 5. CYFLEOEDD AR GYFER RHESTRU LLEOL

### 5.1 Cyflwyniad

- 5.1.1 Gall awdurdodau cynllunio lleol ddewis nodi asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig a chadw rhestr ohonynt. Gelwir hyn yn 'rhestru lleol'. Gall y rhestr gynnwys pob math o asedau hanesyddol — adeiladau, parciau, gerddi, henebion a safleoedd archeolegol — ar yr amod nad ydynt eisoes wedi'u dynodi'n ffurfiol.
- 5.1.2 Dylai'r asedau a nodir i'w cynnwys ar y rhestr wneud cyfraniad pwysig at hynodrwydd lleol a bod â'r potensial i gyfrannu at wybodaeth y cyhoedd.
- 5.1.3 Dylai eu dewis fod yn seiliedig ar feini prawf clir, tystiolaeth leol gadarn ac ymgynghoriad cyhoeddus. Mae arfarniad ardal gadwraeth yn un ffordd o nodi'r asedau hyn.
- 5.1.4 Rhaid ychwanegu rhestr fabwysiedig o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig at y cofnod amgylchedd hanesyddol lleol er mwyn i'r cyhoedd gael mynediad ato. Wedi hynny rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol ddatblygu polisiau cynllun lleol perthnasol y gellir eu defnyddio i wneud penderfyniadau.
- 5.1.5 Mae rhagor o wybodaeth a chyngor ar gael yma: <https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Managing%20Lists%20of%20Historic%20Assets%20of%20Special%20Local%20Interest%20in%20Wales%20EN.pdf>.



*Ffig. 39  
Gellid  
ystyried  
cynnwys y  
Gogerddan  
Arms Hotel  
ar 'restr leol'*

## 5.2 Llanbadarn Fawr

5.2.1 Mae gan Lanbadarn Fawr nifer o adeiladau hanesyddol sydd o arwyddocâd hanesyddol a phensaernïol lleol arbennig a heb eu dynodi yn eu rhinwedd eu hunain.

5.2.2 Byddai cydnabod yr adeiladau hyn trwy eu cynnwys ar 'restr leol' yn:

- Cydnabod bod yr adeiladau hyn yn cael eu gwerthfawrogi gan bobl leol
- Rhoi cyfle i'r gymuned gymryd rhan yn y gwaith o'u nodi a gofalu amdanynt yn briodol
- Caniatáu i'r Cyngor wneud cais am gyllid neu gynlluniau grant a fyddai'n darparu cyfleoedd adfywio ar gyfer adeiladau rhestredig lleol
- Galluogi ystyried newidiadau yn ofalus trwy'r broses gynllunio i sicrhau eu bod yn gadarnhaol ac nad ydynt yn effeithio'n negyddol ar yr asedau, eu lleoliad na'r cymunedau y maent wedi'u lleoli ynddynt.

## 5.3 Argymhelliad

5.3.1 Dylai'r Cyngor sefydlu 'Prosiect Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig' ar gyfer y sir gyfan a fyddai'n nodi'r meini prawf ar gyfer cynnwys adeiladau ar restr o'r fath a datblygu'r rhestr.

5.3.2 Dylai cymunedau lleol fod yn rhan o'r broses ddewis.

5.3.3 Dylai Cyngor Sir Ceredigion ddatblygu a mabwysiadu polisi Cynllun Datblygu Lleol perthnasol.

5.3.4 Mae'r canlynol yn rhestr o adeiladau o ddiddordeb lleol arbennig (nad ydynt eisoes wedi'u dynodi) fel y nodwyd yn yr arfarniad y dylid eu hystyried ar gyfer eu cynnwys:

- Plas Manaw (Former Vicarage)
- Old Cwm Padarn Board School, Primrose Hill
- Capel Soar
- Padarn View
- Gogerddan Arms Hotel
- 1 and 2 Awelon, Hoel Y Llan
- Church Cottage, Hoel Y Llan
- 5 Quebec Road
- Tymawr (cornel Rhes-y-Bont, Ffordd Sulien a Heol y Bont)
- Tan Y Fron, Cartref
- 1 Quebec Road
- Ty Clyd on Quebec Road

## 6. YSTYRIED GORFODI

### 6.1 Cyflwyniad

- 6.1.1 Mae gan orfodi rôl allweddol i'w chwarae wrth ddiogelu ardaloedd cadwraeth.
- 6.1.2 Mae'n hanfodol sicrhau bod holl berchnogion a meddianwyr adeiladau'n deall lle mae cyfyngiadau ar ddatblygu, beth yw eu hawliau datblygu a ganiateir, a'u bod yn gallu cysylltu â'r ACLI am gyngor.
- 6.1.3 Mae monitro rheolaidd yn ddull mwy rhagweithiol ar gyfer ACLlau a allai helpu i leihau nifer y tramgwyddau.
- 6.1.4 Trafod a negodi gyda'r perchennog/meddiannwr yw'r cam cyntaf i'w gymryd mewn unrhyw achos a all arwain at ateb addas heb fod angen cymryd camau gorfodi.

### 6.2 Llanbadarn Fawr

- 6.2.1 Nid yw unrhyw wybodaeth adolygiad sylfaen gynhwysfawr ar gael ar hyn o bryd ar gyfer Llanbadarn Fawr.
- 6.2.2 Mae'n bosibl na fydd perchnogion a meddianwyr yn ymwybodol o'u hawliau datblygu a ganiateir a lle gallai fod cyfyngiadau ar ddatblygu.

### 6.3 Argymhelliad

- 6.3.1 Dylid defnyddio'r arolwg ffotograffig a gynhyrchwyd fel rhan o'r arfarniad ardal gadwraeth hwn fel gwybodaeth sylfaen at ddibenion gorfodi.
- 6.3.2 Dylai'r Cyngor ymrwymo i ddilyn gweithdrefnau gorfodi arfer gorau o fewn ardaloedd cadwraeth Ceredigion.
- 6.3.3 Dylai'r Cyngor gymryd camau i sicrhau bod pob perchennog a meddiannwr yn ymwybodol o'u hawliau datblygu a ganiateir ac unrhyw gyfyngiadau.
- 6.3.4 Dylid cynnal arolwg ffotograffig dilynol yn ystod yr adolygiad nesaf o'r arfarniad ardal gadwraeth, bob pum mlynedd yn ddelfrydol.

## 7. CYFLEOEDD AR GYFER ADFYWIO

### 7.1 Cyflwyniad

- 7.1.1 Gall ardaloedd hanesyddol fod yn ffocws pwysig ar gyfer adfywio cymunedol. Mae eu cymeriad unigryw yn ased a all greu buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar gyfer cymunedau Cymru. Gall adfywio helpu i greu ymdeimlad o le a hynodrwydd lleol, a chefnogi sgiliau gwerthfawr ac annog buddsoddiad.

7.1.2 Mae llawer o ardaloedd hanesyddol wedi dioddef o ddirywiad mewn gweithgarwch economaidd, sy'n arwain at adeiladau sy'n cael eu tanddefnyddio a buddsoddiad isel. Yn yr amgylchiadau hyn, efallai y bydd angen cymryd camau wedi'u targedu i ddatgloi potensial a gwireddu buddion ehangach. Gall gweithgareddau adfywio roi ystyr a pherthnasedd newydd i asedau hanesyddol, gan roi bywyd newydd i adeiladau ac ardaloedd sy'n cael eu tanddefnyddio a'u tanbriso.

## 7.2 Llanbadarn Fawr

- 7.2.1 Fel pentref cefnwlod bach mae'r cyfleoedd ar gyfer adfywio seiliedig ar dreftadaeth yn yr ardal hanesyddol yn gyfyngedig.
- 7.2.2 Mae nifer o safleoedd gerllaw'r ffin ac o fewn safle'r ardal sydd naill ai'n wag neu wedi'u nodi fel safleoedd i'w datblygu yn y CDLI.
- 7.2.3 Mae Capel Saron yn Adeilad Rhestredig Gradd II ac yn wag ar hyn o bryd. Fe'i rhestrwyd yn flaenorol fel adeilad ar werth trwy ocsiwn (yn 2021) ynghyd â'r Tŷ Capel dwy ystafell wely cyfagos, ond ni wyddys a gafodd ei werthu neu beidio. Mae'n ymddangos bod y Capel yn dioddef o broblemau cynnal a chadw a byddai'n elwa o ddefnydd newydd cynaliadwy sensitif.

## 7.3 Argymhelliad


- 7.3.1 Dylai'r Cyngor lunio briff dylunio / canllawiau dylunio ar gyfer safle modern Ysgol Cwmpadarn. Mae'r safle hwn, er ei fod ychydig y tu allan i ffin yr ardal gadwraeth, yn bwysig i'w leoliad a dylid ystyried y cyfleoedd adfywio yma yn ofalus o ran eu heffaith bosibl ar yr ardal gadwraeth. Materion pwysig i'w hystyried yw graddfa, cymesuredd, dyluniad pensaernïol, deunyddiau, effaith unrhyw ddefnydd arfaethedig ar yr ardal gyfagos (e.e. sŵn, llygredd, traffig ac ati), triniaeth terfynau ac unrhyw ddarpariaethau mynediad newydd.
- 7.3.2 Mae nifer o safleoedd wedi'u hamlygu ar fap cynigion y CDLI i'w datblygu o fewn lleoliad yr ardal gadwraeth, fel y dangosir isod. Dylai'r Cyngor lunio briff dylunio / canllawiau dylunio sy'n nodi arwyddocâd lleoliad yr ardal gadwraeth a sut mae'n rhaid i unrhyw gynigion datblygu ystyried hyn.

## 8. CANLLAWIAU HYSBYSEBU A RHEOLI

### 8.1 Cyflwyniad

- 8.1.1 Un o amcanion y system rheoli hysbysebion yw annog arddangos hysbysebion awyr agored sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at olwg yr amgylchedd. Mae llawer o ardaloedd cadwraeth yn cynnwys eiddo masnachol yn amrywio o siopau cornel bach i ganolfannau masnachol ffyniannus, felly gall hysbysebu awyr agored fod yn hollbwysig i fywiogrwydd masnachol.

Ffig. 40 Darn o Gynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ceredigion yn dangos safleoedd datblygu posibl



**Cyngor Sir Ceredigion**  
**Ceredigion County Council**  
 Neudd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,  
 Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA  
 Ffôn/Tel. 01545 570881



**Llanbadarn Fawr**

**Allwedd / Key**

- Ardal Gadwraeth
- Dyranid Cyfogaeth
- Dyranid Defnydd Cynysg
- Dyranid Tai

**Graddfa / Scale: 1:3,444**  
**Argraffwyd ar / Printed on: 2023-12-21**

©Hwariant y Geom a rhwngau croets ddiogel, 2023 Arwng Cydians, 100024419  
 ©Crown copyright and database right, 2023 Ordnance Survey, 100024419  
 ©Local Government Information House, Llanelli, Carmarthenshire, 2023, 100024419  
 ©Esri Mapping plc 2008 | ©COWI/Ebasco, 2008  
 ©Met Office/Mapbox, 2013 | ©Met Office/Mapbox, 2013 | ©Met Office/Mapbox, 2013 | ©Met Office/Mapbox, 2013



Mae'r mathau o hysbysebion sydd angen caniatâd cynllunio yn cynnwys hysbysebion wedi'u goleuo ar eiddo busnes a hysbysebion ar hysbysfyrdau o amgylch safleoedd datblygu.

- 8.1.2 Gall awdurdodau hefyd ddewis mabwysiadu polisïau rheoli hysbysebion fel rhan o'u cynigion ar gyfer cadw neu wella ardaloedd cadwraeth, er enghraifft, trwy ddynodi ardaloedd rheoli hysbysebion arbennig. Dylai awdurdodau cynllunio lleol ddefnyddio rheolaethau o'r fath mewn modd hyblyg mewn ardaloedd cadwraeth i warchod y nodweddion hynny sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol a arweiniodd at y dynodiad.

## 8.2 Llanbadarn Fawr

- 8.2.1 Ychydig o siopau neu eiddo masnachol sydd o fewn yr ardal gadwraeth, fodd bynnag, mae'r rhai sy'n bodoli mewn safleoedd amlwg.
- 8.2.2 Mae nifer o hysbysebion baneri ynghlwm wrth y rheiliau diogelwch o amgylch y pentref sydd ar hyn o bryd yn cyfeirio at lefydd y tu allan i'r ardal gadwraeth. Maent yn mynd yn ddiolwg ar ôl cyfnod byr o amser ac yn annog pobl i osod baneri eraill.
- 8.2.3 Nid oes gan y ddwy siop fach ger y gofgolofn flaenau siopau traddodiadol ac efallai eu bod wedi'u haddasu o eiddo preswyl.

## 8.3 Argymhellion

- 8.3.1 Mae'r rhan fwyaf o'r arwyddion masnachol yn yr ardal gadwraeth yn ystyriol ac yn briodol. Fodd bynnag, gallai hyn fod yn broblem os bydd perchnogion yn newid neu os oes angen arwyddion newydd. Er mwyn annog arwyddion priodol ar siopau, eiddo masnachol a lleoliadau perthnasol eraill, dylai Cyngor Sir Ceredigion adolygu canllawiau blaenau siopau Aberystwyth 2013 i ymdrin ag arferion da ar gyfer blaenau siopau ac arwyddion ym mhob ardal gadwraeth, ac ystyried ail-ryddhau'r canllawiau gydag ymgyrch hyrwyddo ychwanegol trwy'r ardaloedd cadwraeth yng Ngheredigion.
- 8.3.2 Dylai'r Cyngor ymchwilio a oes modd rheoli'r hysbysebion baneri ar y rheiliau diogelwch. Os nad yw hyn yn bosibl efallai y byddai'n werth trafod gyda pherchnogion baneri i'w symud i leoliadau mwy priodol.
- 8.3.3 Byddai'r ddwy siop fach ar sgwâr y gofgolofn yn elwa'n weledol o gael blaenau siopau traddodiadol ac arwyddion traddodiadol. Ar y cyd â gwaith mewn ardaloedd cadwraeth eraill, dylai'r Cyngor geisio cyllid ar gyfer cynllun grantiau ar gyfer arwyddion siopau / blaenau siopau traddodiadol.

## 9. ADEILADAU MEWN PERYGL

### 9.1 Cyflwyniad

9.1.1 Cadw'r defnydd o adeiladau a'u cynnal yw congfaen rheolaeth lwyddiannus o ardal gadwraeth. Mae adeiladau sy'n cael eu hesgeuluso a'u tanddefnyddio yn niweidio bywiogrwydd ac atyniad ardaloedd cadwraeth.

### 9.2 Adeiladau Gwag yn Llanbadarn Fawr

9.2.1 (Gweler Capel Saron uchod, adran 7.2.3). Mae Capel Saron yn Adeilad Rhestredig Gradd II ac yn wag ar hyn o bryd. Yn 2021 pan restrwyd y Capel a'r Tŷ Capel fel adeiladau ar werth roedd yn ymddangos eu bod mewn cyflwr da. Mae gwaith cynnal a chadw wedi cronni ers hynny a gallai arwain yn fuan at ddifrod difrifol i'r adeilad.

9.2.2 Mae ychydig o adeiladau preswyl gwag sydd ar werth ar hyn o bryd ond nid yw'r un ohonynt i'w weld yn adeiladau heb eu meddiannau yn y tymor hir.

9.2.3 Mae'r rhan fwyaf o eiddo yn yr ardal gadwraeth yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Fodd bynnag, mae llond llaw ohonynt sydd angen rhywfaint o waith cynnal a chadw cyffredinol.

### 9.3 Argymhelliad

9.3.1 Dylai'r Cyngor sefydlu Strategaeth Adeiladau Mewn Perygl ar gyfer y sir gyfan a fyddai'n gweithio gydag Adeiladau Rhestredig a'r rhai yr ystyrir eu bod yn cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth. Byddai hyn yn amlinellu dull strategol o nodi a rheoli'r adeiladau hyn. (gweler: <https://cadw.gov.wales/advice-support/historic-assets/listed-buildings/listed-buildings-risk#section-managing-listed-buildings-at-risk>).

9.3.2 Dylai'r Cyngor ymchwilio i weld a gafodd Capel Saron ei werthu trwy ocsiwn (gwerthwr tai partner Morgan & Davies) a chysylltu ag unrhyw berchennog newydd ynghylch defnydd ac atgyweiriadau newydd posibl. Os na chafodd yr eiddo ei werthu, dylai'r Cyngor gysylltu â'r perchennog a'i annog i'w roi ar werth eto.

9.3.3 Mae'n ofynnol i berchnogion adeiladau rhestredig eu cadw mewn cyflwr rhesymol. Mae gan awdurdodau cynllunio lleol bwerau i gyflwyno Hysbysiadau Atgyweirio a defnyddio offer gorfodi eraill mewn achosion eithafol. Os bydd trafodaethau'n aflwyddiannus, dylai'r Cyngor ystyried defnyddio ei bwerau statudol.

9.3.4 Dylai'r Cyngor, er mwyn cwmpasu'r holl ardaloedd cadwraeth, adeiladau rhestredig ac eiddo heb eu dynodi, ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu cynlluniau a chyrsgiau hyfforddi – hyfforddi meddianwyr a pherchnogion mewn arferion cadwraeth da, yn enwedig atgyweirio a chynnal a chadw gyda deunyddiau priodol. Gweler Cynllun Rheoli Cadwraeth Aberystwyth am

awgrymiadau ar gyfer cynllun llawn. Byddai dosbarthu cyhoeddiad megis 'Stitch in Time' (IHBC a SPAB) i'r holl eiddo yn ardaloedd cadwraeth Ceredigion yn ddechrau da i'r broses hon.



**Ffig. 41 Capel Saron. Mae'n ofynnol i berchnogion Adeiladau Rhestredig eu cadw mewn cyflwr rhesymol.**

## 10. GWELLIANNAU AMGYLCHEDDOL

### 10.1 Cyflwyniad

10.1.1 Yn ogystal â'r offer gorfodi amrywiol sydd ar gael i awdurdodau cynllunio lleol, mae cyfleoedd ychwanegol ar gyfer gwella'r amgylchedd. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau cenedlaethol, adrannau eraill y Cyngor a sefydliadau lleol megis Cyngorau Tref a fforymau busnes.

10.1.2 Mae cyfleoedd ar gyfer gwelliannau amgylcheddol yn aml yn ymwneud â seilwaith ffisegol y dref, gan gynnwys priffyrdd, gwaith gan ymgymeryr statudol, iechyd yr amgylchedd, tai ac eraill.

10.1.3 Gall ymgysylltu â'r gymuned a mentora hefyd greu newid cadarnhaol o fewn ardaloedd dynodedig.

### 10.2 Llanbadarn Fawr

10.2.1 Mae ychydig enghreifftiau o estyniadau bach wedi'u dylunio'n wael a defnydd o ddeunyddiau amhriodol o fewn yr ardal gadwraeth sy'n effeithio'n negyddol ar y golwg a'r cymeriad cyffredinol.

- 10.2.2 Mae dodrefn stryd yn gydnaws ar y cyfan â chymeriad hanesyddol yr ardal ond mae rhai enghreifftiau o ddewisiadau gwael megis y gwelyau blodau concrit crwn a rheiliau diogelwch priffyrdd sy'n amharu ar yr ansawdd cyffredinol.
- 10.2.3 Mae nodweddion diogelwch ffyrdd fel bolardiau a marciau stryd yn achosi annibendod gweledol ac nid ydynt yn gweddu i'w dyluniad na'u deunyddiau.
- 10.2.4 Mae sbwriel a safleoedd y gellid eu gwella i'w cael mewn rhai ardaloedd yn Llanbadarn Fawr, yn enwedig o amgylch y Llew Du, y coetir i'r gorllewin o'r fynwent, Hen Ysgol Cwm Padarn, yr ardal i'r gogledd-ddwyrain o'r fynwent ger Gwyneryl, ardal y nant yn y sgwâr dwyreiniol, a'r adeilad cyflenwi nwy ym mhen gogledd-ddwyreiniol Pen y Graig.



***Ffigurau 42 ac 43 Ardal i'r gogledd-ddwyrain o'r fynwent ger Gwyneryl***



***Ffig. 44 Adeilad cyflenwi nwy ym mhen gogledd-ddwyreiniol Pen y Graig***

### 10.3 Argymhelliad

- 10.3.1 Rhaid i dîm rheoli datblygu'r Cyngor annog dylunio da ar gyfer estyniadau a datblygiadau newydd o fewn ardaloedd cadwraeth, yn enwedig trwy ddefnyddio'r broses ymholi cyn ymgeisio a sicrhau bod y CCA presennol yn addas i'r diben. Mae'n bosibl y bydd angen adolygu ac ail-ryddhau'r CCA a'u hyrwyddo yn enwedig o fewn ardaloedd dynodedig.
- 10.3.2 Sicrhau bod Swyddogion Gorfodi yn cael eu hyfforddi i ddeall cylch gorchwyl penodol ardaloedd cadwraeth ac adeiladau a safleoedd dynodedig, a bod adnoddau ar gael ar gyfer cymryd camau gorfodi os a phan fo angen.
- 10.3.3 Trafod â pherchnogion ynglŷn â safleoedd anniben ac a oes angen ystyried defnyddio hysbysiadau gorfodi Adran 215 lechyd yr Amgylchedd.
- 10.3.4 Os oes angen, cynnig hyfforddiant i Swyddogion Priffyrdd ar ddylunio da mewn ardaloedd cadwraeth. Mae rhai cyhoeddiadau a chanllawiau ardderchog ar gael fel '*Streets for All*' Historic England (<https://historicengland.org.uk/images-books/publications/streets-for-all/heag149-sfa-national/>).
- 10.3.5 Ar y cyd â'r Adran Briffyrdd, llunio cod dylunio ar gyfer pob ardal gadwraeth yng Ngheredigion a cheisio cyllid i'w weithredu. Bydd yn rhoi sylw i wynebaw, rheiliau diogelwch, dodrefn stryd a nodweddion ffyrdd a diogelwch priffyrdd.



***Ffig. 45 Gellid gwneud gwelliannau i annibendod stryd a dyluniad priffyrdd***

- 10.3.6 Gyda'r gymuned leol sefydlu grŵp cymunedol cynghori / gwella ardal gadwraeth a all gyflawni tasgau bach a fyddai'n gwneud gwahaniaeth mawr fel codi sbwriel, gwella ardal y nant ar ochr ddwyreiniol y sgwâr, helpu perchnogion i fynd i'r afael â rhywogaethau ymledol, peintio

dodrefn stryd ac ati (gweler: <https://www.keepbritaintidy.org/sites/default/files/resources/How%20To%20Organise%20A%20Litter-Picking%20Event.pdf>). Gallai hefyd wneud sylwadau ar gynigion datblygu mewn ardaloedd cadwraeth a dwyn unrhyw faterion yn y dyfodol o fewn yr ardal gadwraeth at sylw'r Cyngor. Dylai'r Cyngor ddarparu mentora a hyfforddiant.

10.3.7 Dylai grŵp cymunedol yr ardal gadwraeth a / neu'r Cyngor gysylltu â'r awdurdod nwy i sicrhau bod ei adeilad cyflenwi yn cael ei gynnal a'i gadw a'i fod yn cael gwared ar y graffiti.

## 11. COED, TIRWEDD A MANNAU AGORED

### 11.1 Cyflwyniad

11.1.1 Mae coed yn elfen bwysig o gymeriad ac amwynder llawer o ardaloedd cadwraeth ac — ynghyd â manau agored gwyrdd, gan gynnwys gerddi preifat — mae ganddynt rôl werthfawr i'w chwarae mewn gwasanaethau ecosystem. I gyd-fynd â'r rheolaethau dros goed mewn ardaloedd cadwraeth, mae'n syniad da i awdurdodau cynllunio lleol ddatblygu polisiau lleol penodol ar gyfer gwarchod a rheoli coed ac elfennau eraill o'r amgylchedd naturiol, megis gwrychoedd ac ymylon ffyrdd.

11.1.2 Gallai strategaeth ar gyfer coed gynnwys asesiad o'u gwerth o ran amwynder a bioamrywiaeth, a'u cyfraniad at wasanaethau ecosystem cyn bod pwysau i'w gwaredu. Gellid integreiddio gwarchod a rheoli coed a manau agored mewn strategaeth seilwaith gwyrdd.

### 11.2 Llanbadarn Fawr

11.2.1 Mae'r manau agored o amgylch ffin yr ardal, y coetir, y gwrychoedd a'r llu o erddi preifat yn atgyfnerthu cymeriad pentrefol yr ardal. Maent yn gydrannau pwysig o'i chymeriad a'i golwg.

11.2.2 Mae golygfeydd allan i'r caeau a chefn gwlad agored hefyd yn bwysig o ran atgyfnerthu cymeriad pentrefol yr ardal.

11.2.3 Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi mabwysiadu Strategaeth ar gyfer Gwyrddu Trefi ac mae Asesiad Seilwaith Gwyrdd wedi cael ei gynnal gan ymgynghorwyr.

### 11.3 Argymhelliad

11.3.1 Diogelu coed, manau agored a golygfeydd pwysig o fewn yr ardal gadwraeth a'r rhai sy'n cyfrannu at ei lleoliad trwy'r CDLI.

11.3.2 Nodi meysydd sy'n peri problemau a rhoi cyngor ar reoli rhywogaethau anfrodorol ymledol megis canclwm Japan, Jac y neidiwr a bambŵ.

11.3.3 Ystyried comisiynu adroddiad coed ar wahân a / neu gynnwys y gymuned leol wrth adnabod a mapio coed a grwpiau o goed sy'n addas ar gyfer Gorchmynion Cadw Coed.

- 11.3.4 Parhau i ddilyn yr argymhellion yn y dogfennau strategol seilwaith gwyrdd perthnasol a mabwysiedig.
- 11.3.5 Sicrhau bod yr asesiad seilwaith gwyrdd a'r strategaeth ar gyfer coed ym mhob ardal gadwraeth yn cael eu diweddarau a'u hadolygu'n rheolaidd.



*Ffig. 46 Mae coed, gwrychoedd a gerddi preifat yn elfennau pwysig o'r ardal gadwraeth*

## 12. MONITRO AC ADOLYGU

### 12.1 Cyflwyniad

- 12.1.1 Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol adolygu ardaloedd cadwraeth presennol 'o bryd i'w gilydd' – yn gyffredinol ystyrir mai bob pump i ddeng mlynedd yw'r arfer gorau.
- 12.1.2 Dylai'r adolygiad sefydlu'r cynnydd a wnaed ers yr arfarniad blaenorol a dylai gadarnhau neu ailddiffinio materion o ddiddordeb arbennig a hollbwysig. Dylai'r adolygiad hefyd adolygu'r cynllun rheoli a darparu argymhellion newydd lle bo'n briodol.
- 12.1.3 Mae monitro newid yn hanfodol er mwyn gallu gwerthuso effaith dynodiad a llwyddiant strategaethau rheoli o ran cadw neu wella cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth.
- 12.1.4 Mae Cadw o'r farn mai'r llinell sylfaen ar gyfer adolygiad cyfnodol yw arolwg ffotograffig llawn sy'n cofnodi adeiladau o'r stryd, yn ogystal ag elfennau eraill o gymeriad, gan gynnwys coed,

gerddi, ffiniau a golygfeydd. Mae lle i gynnwys grwpiau cymunedol lleol wrth wneud y gwaith hwn.

## 12.2 Llanbadarn Fawr

12.2.1 Ar wahân i ddisgrifiad byr yn nodi pryd y cafodd ei ddynodi nid oes gan Lanbadarn Fawr arfarniad neu ddogfen reoli fabwysiedig.

12.2.2 Dyma'r adolygiad cyntaf o'r ardal gadwraeth ers iddi gael ei dynodi.

12.2.3 Mae'r Cyngor newydd benodi Swyddog Cynllunio newydd gyda chyfrifoldeb am gadwraeth.

## 12.3 Argymhelliad

12.3.1 Dylai'r Cyngor fabwysiadu'r arfarniad a'r cynllun rheoli hwn fel Canllawiau Cynllunio Atodol a'u defnyddio i lywio'r broses gwneud penderfyniadau.

12.3.2 Dylai'r Cyngor ymrwymo i adolygu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli o fewn cyfnod addas ac o fewn deng mlynedd o leiaf.

12.3.3 Dylai'r Cyngor gynnwys y gymuned leol yn y gwaith o fonitro a rheoli'r ardal ac adolygiadau arfarniad yn y dyfodol, lle bo modd.

12.3.4 Dylai'r Cyngor sicrhau, o fewn cyfyngiadau'r gyllideb, bod Swyddogion Cadwraeth a Threftadaeth yn cael cefnogaeth wleidyddol a bod adnoddau digonol ganddynt.

12.3.5 Hwyluso gweithio mewn partneriaeth rhwng adrannau, busnesau lleol a chymunedau i sicrhau bod eu dyletswydd statudol mewn perthynas ag ardaloedd cadwraeth yn cael ei chyflawni.

## Atodiad A: cynllun gweithredu wedi'i flaenoriaethU

GWEITHREDU / ARGYMHELLION	CYFRIFOLDEB / PARTNERIAID	BLAENORIAETH
(AM EGLURHAD LLAWN GWELER Y CYNLLUN RHEOLI)		
Dylid mabwysiadu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli fel Canllawiau Cynllunio Atodol a'u defnyddio i lywio'r broses gwneud penderfyniadau.	CSC – Treftadaeth a Pholisi	<b>Uchel</b> <b>0-1 flwyddyn</b>
Dylid cymhwyso Cyfarwyddyd Erthygl 4(1 neu 2) i Ardal Gadwraeth Llanbadarn Fawr	CSC – Treftadaeth a Pholisi Y gymuned leol / Cynghorau Tref a Chymuned	<b>Uchel</b> <b>0-1 flwyddyn</b>
Dylid defnyddio'r arolwg ffotograffig a gynhyrchwyd fel rhan o'r arfarniad ardal gadwraeth hwn fel gwybodaeth sylfaen at ddibenion gorfodi.	CSC – Treftadaeth, Gorfodaeth Cynllunio, Cyfreithiol	<b>Uchel</b> <b>0-1 flwyddyn</b>
Ymrwymiad i ddilyn gweithdrefnau gorfodi arfer gorau o fewn ardaloedd cadwraeth Ceredigion (Siarter Gorfodi neu'r tebyg). Trafod â pherchnogion ynghylch safleoedd anniben ac os oes angen ystyried defnyddio hysbysiadau gorfodi Adran 215 Iechyd yr Amgylchedd. Cyflwyno Hysbysiadau Atgyweirio a defnyddio offer gorfodi eraill yn ôl yr angen. Sicrhau bod Swyddogion Gorfodi yn cael eu hyfforddi i ddeall cylch gorchwyl penodol ardaloedd cadwraeth ac adeiladau a safleoedd dynodedig.	CSC – Treftadaeth, Gorfodaeth Cynllunio, Cyfreithiol	<b>Uchel – Parhaus</b>
Llunio briff dylunio / canllawiau dylunio ar gyfer safle modern Ysgol Cwmpadarn.	CSC – Treftadaeth, Polisi, Ecoleg a Rheoli Datblygu Ymgynghorwyr	<b>Uchel</b> <b>0-1 flwyddyn</b>
Ymchwilio i weld a gafodd Capel Saron ei werthu trwy ocsiwn, cysylltu â pherchnogion newydd neu annog ymdrechion pellach i'w werthu.	CSC – Treftadaeth	<b>Uchel</b> <b>0-1 flwyddyn</b>
Annog dylunio da ar gyfer estyniadau a datblygiadau newydd o fewn ardaloedd cadwraeth.	CSC – Rheoli Datblygu a Threftadaeth	<b>Uchel – parhaus</b>
Diogelu coed, manau agored a golygfeydd pwysig o fewn yr ardal gadwraeth a'r rhai sy'n cyfrannu at ei lleoliad trwy'r CDLI a rheoli datblygu.	CSC – Treftadaeth, Polisi, Ecoleg a Rheoli Datblygu	<b>Uchel – parhaus</b>
Nodi meysydd problemus a rhoi cyngor ar reoli rhywogaethau anffrodorol ymledol.	CSC – Ecoleg	<b>Uchel – parhaus</b>
Parhau i ddilyn yr argymhellion yn y dogfennau strategol Seilwaith Gwyrdd perthnasol a mabwysiedig. Sicrhau bod yr asesiad seilwaith gwyrdd a'r strategaeth ar gyfer coed ym mhob ardal gadwraeth yn cael eu diweddarau a'u hadolygu'n rheolaidd.	CSC – Ecoleg, Polisi a Rheoli Datblygu	<b>Uchel – parhaus</b>
Sicrhau, o fewn cyfyngiadau'r gyllideb, bod Swyddogion Cadwraeth a Threftadaeth yn cael cefnogaeth wleidyddol a bod adnoddau digonol ganddynt.	CSC	<b>Uchel – parhaus</b>
Hwyluso gweithio mewn partneriaeth rhwng adrannau, busnesau lleol a chymunedau i sicrhau bod eu dyletswydd statudol mewn perthynas ag ardaloedd cadwraeth yn cael ei chyflawni.	CSC	<b>Uchel – parhaus</b>

GWEITHREDU / ARGYMHELLION (AM EGLURHAD LLAWN GWELER Y CYNLLUN RHEOLI)	CYFRIFOLDEB / PARTNERIAID	BLAENORIAETH
Cynhyrchu taflen Ardal Gadwraeth Llanbadarn Fawr. Sicrhau bod pob perchennog a meddiannwr yn ymwybodol o'i hawliau datblygu a ganiateir ac unrhyw gyfyngiadau.	CSC – Treftadaeth, Ecoleg a Pholisi  Y gymuned leol	<b>Canolig 2-3 blynedd</b>
Sefydlu 'Prosiect Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig' ar gyfer y sir gyfan. Datblygu a mabwysiadu polisi Cynllun Datblygu Lleol perthnasol.	CSC – Treftadaeth a Pholisi  Cymunedau lleol	<b>Canolig 2-3 blynedd</b>
Dyraniadau CDLI: llunio briff dylunio / canllawiau dylunio sy'n nodi arwyddocâd lleoliad yr ardal gadwraeth a sut mae'n rhaid i unrhyw gynigion datblygu ystyried hyn.	CSC – Polisi, Ecoleg, Treftadaeth a Rheoli Datblygu	<b>Canolig 2-3 blynedd</b>
Adolygu canllawiau blaenau siopau Aberystwyth 2013 i gwmpasu arfer da ar gyfer blaenau siopau ac arwyddion ym mhob ardal gadwraeth.	CSC – Polisi a Threftadaeth  Awdurdodau lleol eraill, Swyddog Cadwraeth De a Chanolbarth Cymru  Grwpiau	<b>Canolig 2-3 blynedd</b>
Ceisio cyllid ar gyfer cynllun grantiau ar gyfer arwyddion siopau traddodiadol / blaen siopau.	CSC – Polisi ac Adfywio  Cynghorau Cymuned a Thref, NLHF, cyllid adfywio ac ati.	<b>Canolig 2-3 blynedd</b>
Hyfforddiant ar gyfer Swyddogion Priffyrdd ar ddylunio da mewn ardaloedd cadwraeth.	CSC – Treftadaeth, Polisi, Priffyrdd  Ymgynghorwyr	<b>Canolig 2-3 blynedd</b>
Ystyried comisiynu adroddiad coed ar wahân a/neu gynnwys y gymuned leol wrth nodi a mapio coed a grwpiau coed sy'n addas ar gyfer Gorchmynion Cadw Coed.	CSC – Ecoleg  Cynghorau Tref a Chymuned / y gymuned leol	<b>Canolig 2-3 blynedd</b>
Datblygu a mabwysiadu taflenni canllaw a gwybodaeth ar gyfer ardaloedd cadwraeth e.e. ffenestri hanesyddol, microgynhyrchu, insiwleiddio muriau allanol, ac ati.	CSC – Treftadaeth  Awdurdodau lleol eraill, Grwpiau Swyddogion Cadwraeth De Cymru a'r Canolbarth, Fforwm Treftadaeth Adeiledig Cadw, IHBC, Canolfan Tywi	<b>Isef 3-5 mlynedd</b>
Darparu dehongliad ychwanegol ynghylch Y Garreg Fawr.	CSC – Twristiaeth, Adfywio a Threftadaeth  Y gymuned leol / Cynghorau Tref a Chymuned	<b>Isef 3-5 mlynedd</b>
Sefydlu Strategaeth Adeiladau Mewn Perygl ar gyfer y sir gyfan a fyddai'n gweithio gydag Adeiladau Rhestredig a'r rhai yr ystyrir eu bod yn cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth.	CSC – Treftadaeth a Pholisi	<b>Isef 3-5 mlynedd</b>

GWEITHREDU / ARGYMHELLION (AM EGLURHAD LLAWN GWELER Y CYNLLUN RHEOLI)	CYFRIFOLDEB / PARTNERIAID	BLAENORIAETH
Ymchwilio i weld a oes ffordd o reoli'r hysbysebion baneri / trafod â pherchnogion arwyddion.	CSC – Gorfodaeth a Threftadaeth	<b>Isel 3-5 mlynedd</b>
Ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu cynlluniau a chysiau hyfforddi – hyfforddi meddianwyr a pherchnogion mewn arferion cadwraeth da, yn enwedig ym maes atgyweirio a chynnal a chadw.	CSC – Polisi a Threftadaeth Cadw, NLHF, Canolfan Tywi, awdurdodau lleol eraill, IHBC, SPAB ac ati	<b>Isel 3-5 mlynedd</b>
Sefydlu grŵp cymunedol cynghori / gwella ardal gadwraeth ar gyfer pob ardal gadwraeth yng Ngheredigion. Ar gyfer Llanbadarn, cysylltu â'r awdurdodau nwy i sicrhau bod eu hadeilad cyflenwi yn cael ei gynnal a'i gadw a chael gwared ar y graffiti.	CSC – Treftadaeth, Polisi Cynghorau Tref a Chymuned, Cymunedau lleol a grwpiau / sefydliadau	<b>Isel 3-5 mlynedd</b>
Priffyrdd – llunio cod dylunio ar gyfer pob ardal gadwraeth yng Ngheredigion a cheisio cyllid i'w weithredu.	CSC – Treftadaeth, Polisi, Adfywio a Phriffyrdd	<b>Isel 3-5 mlynedd</b>
Ymrwymo i adolygu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli o fewn cyfnod addas ac o fewn deng mlynedd o leiaf. Arolwg ffotograffig dilynol fel rhan o'r adolygiad nesaf. Cynnwys y gymuned leol yn y gwaith o fonitro a rheoli'r ardal ac adolygiadau arfarniad yn y dyfodol.	CSC – Polisi a Threftadaeth Ymgynghorwyr	<b>Isel 5-10 mlynedd</b>

**ATODIAD B: CYFEIRIADAU A LLYFRYDDIAETH****Deddfwriaeth a Chanllawiau**

- Cadw (2011) 'Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy': [https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Conservation\\_Principles%20for%20the%20sustainable%20managment%20fo%20the%20historic%20environment%20of%20Wales.pdf](https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Conservation_Principles%20for%20the%20sustainable%20managment%20fo%20the%20historic%20environment%20of%20Wales.pdf)
- Cadw (2017) 'Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru': <https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Setting%20of%20Historic%20Assets%20in%20Wales%20EN.pdf>
- Cadw (2017) 'Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru': <https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/20170531Managing%20Conservation%20Areas%20in%20Wales%2028424%20EN.pdf>
- Cadw (2017) 'Rheoli Newidiadau i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru': <https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/20170531Managing%20Change%20to%20Listed%20Buildings%20in%20Wales%2024303%20EN.pdf>
- Cadw (2017) 'Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru': <https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Managing%20Historic%20Character%20in%20Wales%20%20EN.pdf>
- Cadw (2017) 'Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru': <https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Managing%20Lists%20of%20Historic%20Assets%20of%20Special%20Local%20Interest%20in%20Wales%20EN.pdf>
- Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ceredigion (CDL1): 2007 – 2022* (Mabwysiadwyd 2013) CCA Cyngor Sir Ceredigion: Yr Amgylchedd Adeiledig a Dylunio
- Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (1990): <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1990/9/contents>
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted>
- Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016: <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/4/contents>
- Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol: <https://www.gov.wales/technical-advice-note-tan-24-historic-environment>
- Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11, Chwefror 2021): [https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-02/planning-policy-wales-edition-11\\_0.pdf](https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-02/planning-policy-wales-edition-11_0.pdf)

## Llyfryddiaeth

- Blackshaw, Tye R. "*Seddon, John Pollard (1827-1906), architect*". Oxford Dictionary of National Biography. Rhifyn ar-lein. Gwe. 25 Tachwedd 2016.
- Bogart, D. (u.d.) *The Turnpike Roads of England and Wales*
- Bowen, G. A (1979) *A History of Llanbadarn Fawr*
- Cave, R and Hains, B. A (1986) *Geology of the country between Aberystwyth and Machynlleth*.
- Conway, Gillian L. (1997) *Towards a Cultural Context for the Eleventh-century Llanbadarn manuscripts*. Ceredigion, Cyfrol XIII/1 1997.
- Cyngor Cymuned Llanbadarn Fawr (2023) *Gwefan Cyngor Cymuned Llanbadarn Fawr*
- Davies, J. L. and Kirby, D. P. eds. (1994) *From the earliest times to the coming of the Normans*. Yn Cardiganshire County History. Cyfrol 1
- Edwards, N and Lane, A. eds. (1992) *The Early Church in Wales and the West, recent work in early Christian archaeology, history and place names*
- Evans, G. E. (1903) *Cardiganshire: A Personal Survey of Some of its Antiquities, Chapes, Churches, Fonts, Plate, and Registers*
- Freeman, M. (u.d.) *Early Tourists in Wales: 18th and 19th century tourists' comments about Wales*
- Geograph.co.uk (u.d.) *Photos of Llanbadarn Fawr and surrounding area*
- Gilbey, A. W (u.d.) *The Churchyard at Llanbadarn Fawr*
- Lewis, F. R. (1937) *A Short History of the Church of Llanbadarn Fawr, Cardiganshire, etc.* Lewis, F R. (1938) *The History of Llanbadarn Fawr, Cardiganshire, in the Middle Ages* Lewis, S. (1833) *Topographical Dictionary of Wales*
- Lewis, W.J. (1964) *The Manor of Llanbadarn Fawr in Ceredigion: Cyfnodolyn Cymdeithas Hynafiaethwyr Sir Aberteifi, Cyfrol V, Rhif 1*
- Memoir for 1:50 000 geological sheet 163 (England & Wales)*
- Meyrick, S. (1808) *The History and Antiquities of the County of Cardigan*
- Morgan, T.O. (1848) *New Guide to Aberystwyth and its Environs*
- Morus, B. (1912) *Llanbadarn Fawr yn Cymru, Cyfrol. 42*
- Pevsner, N. (1963) *Herefordshire* (The Buildings of England series) Prichard, T.J.L. (1924) *The New Aberystwyth Guide*

RCAHMW (2014) *Llanbadarn Fawr Village* (Coflein cofnod NPRN: 96155)

Rees, O.G. (1960) *Papers and correspondence about the Restoration of Llanbadarn Fawr Parish Church, 1862-1870*. Cyfnodolyn Cymdeithas Hanesyddol yr Eglwys yng Nghymru, Cyfrol X, Rhif 15.

#### Gwefannau ac Adnoddau Rhyngrwyd

<https://archwilio.org.uk/>

<https://archives.wales/>

<https://archives.library.wales/>

<https://www.british-history.ac.uk/>

<https://cadw.gov.wales/advice-support/cof-cymru/search-cadw-records>

<https://ceredigionhistory.wales/>

<https://coflein.gov.uk>

<https://datamap.gov.wales/>

<https://www.discoverceredigion.wales/areas-of-ceredigion/>

<https://discovery.nationalarchives.gov.uk/>

<https://en-gb.topographic-map.com>

<https://en.wikipedia.org>

<https://www.google.com/maps/>